# Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru

Argraffiad diwygiedig 2019



Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol

**Am y cyhoeddwr**
Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) yn is-gwmni sydd yn eiddo llwyr i Gymdeithas Brydeinig y Therapyddion Galwedigaethol (BAOT) ac mae'n gweithredu fel elusen gofrestredig. Mae'n cynrychioli'r proffesiwn yn genedlaethol a rhyngwladol, ac yn cyfrannu'n eang at ymgynghoriadau polisi trwy'r Deyrnas Unedig i gyd. Y RCOT sy'n gosod y safonau proffesiynol ac addysgiadol ar gyfer therapi galwedigaethol, gan roi arweiniad, cyfarwyddyd a gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwil a datblygu, addysgu, ymarfer a dysgu gydol oes. Yn ychwanegol, mae 10 adran arbenigol wedi eu hachredu yn cefnogi ymarfer clinigol arbenigol.

Am fwy o gyhoeddiadau a lawrlwythiadau am ddim ewch i
**rcot.co.uk/publications**

1/2022

# Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru

Argraffiad diwygiedig 2019

Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol

**Cyhoeddwyd gyntaf yn 2019**
gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
106–114 Borough High Street
Llundain SE 1 1LB
**www.rcot.co.uk**

Ailgyhoeddwyd gyda diwygiadau 2020, 2021 a 2022

Hawlfraint © Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol 2019

**Awdur:** Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
**Ysgrifennwr:** Emily Wheeler – Arweinydd Prosiect Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
**Dyddiad adolygu:** 2024

Cedwir pob hawl, gan gynnwys y cyfieithiad. Ni all unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, ei storio mewn system adalw na'i drosglwyddo, ar unrhyw ffurf neu unrhyw ddull, electronig, mecanyddol, llungopïo, recordiad, sganio neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol ymlaen llaw, oni bai y cytunir neu y dynodir fel arall. Ni chaniateir copïo ac eithrio ar gyfer defnydd personol a mewnol, i'r graddau a ganiateir gan gyfraith hawlfraint genedlaethol, neu dan amodau trwydded a gyhoeddwyd gan y sefydliad hawliau atgynhyrchu cenedlaethol perthnasol (fel yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint yn y Deyrnas Unedig). Dylai ceisiadau am ganiatâd i gopïo trwy ddulliau eraill, fel copïo ar gyfer ei ddosbarthu yn gyffredinol, ar gyfer dibenion hysbysebu a hyrwyddo, i greu casgliadau newydd, neu i'w hailwerthu, gael eu cyfeirio at y Rheolwr Cyhoeddiadau yn y cyfeiriad uchod.

Dylid cyfeirio ymholiadau eraill am y ddogfen hon at y Tîm Addysg yn y cyfeiriad uchod.

***Data catalogio wrth gyhoeddi'r Llyfrgell Brydeinig***
Mae cofnod catalog ar gyfer y llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig
Er i ni wneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni fydd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn.

**ISBN 978-1-905944-96-5**

Cysodwyd gan gan Cheshire Typesetting Ltd, Cuddington, Swydd Gaer
Argreffir yn ddigidol yn ôl y gofyn ym Mhrydain gan y Lavenham Press, Suffolk

FSC www.fsc.org
MIX
Paper from responsible sources
FSC® C010693

# Cynnwys


Cydnabyddiaeth iv

Cyflwyniad a chefndir 1

Beth yw'r Safonau Dysgu a Datblygu ar gyfer Addysg Cyn Cofrestru? 1

Beth yw rôl Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT)? 1

Beth yw rôl y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)? 2

Sut mae egwyddorion therapi galwedigaethol yn sail i addysg cyn cofrestru? 2

Beth yw rôl y darparwr addysg? 3

Sut ydym ni'n paratoi'r genhedlaeth nesaf o therapyddion galwedigaethol? 4

Sut mae llwybrau addysg cyn cofrestru newydd yn cael eu hystyried? 5

Sut y datblygwyd y Safonau? 6

Diffiniadau a thermau 9

Safonau Dysgu a Datblygu ar gyfer Addysg Cyn Cofrestru 18

Maes 1 – Lefel y dyfarniad ar gyfer mynediad i'r proffesiwn 18

Maes 2 – Derbyniadau i raglen cyn cofrestru 18

Maes 3 – Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru 24

Maes 4 – Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru 42

Maes 5 – Dysgu wrth ymarfer 53

Maes 6 – Asesu 63

Cyfeiriadau 68

# Cydnabyddiaeth

Mae'r ddogfen hon yn defnyddio argraffiadau blaenorol o safonau addysg cyn cofrestru blaenorol Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT), gan gynnwys y Learning and development standards for pre-registration education (COT 2014a). Mae'r cysyniadau a'r syniadau a fynegir yn y ddogfen hon yn ddatblygiad o'r gwaith blaenorol hwnnw ac fe'u bwriedir i adlewyrchu'r arferion a'r cyd-destunau gwasanaeth presennol, ac i barhau i arfogi graddedigion i arwain ac esblygu'r proffesiwn yn y dyfodol.

Dymuna'r RCOT ddiolch i'r holl randdeiliaid allweddol a fu'n rhan o ddatblygu'r ddogfen hon, yn arbennig y rhai a gyfrannodd at y drafodaeth ac a roddodd adborth yn ystod y grŵp ffocws anghydamserol a'r ymgynghoriad ehangach a gynhaliwyd yn 2019.

Goruchwyliwyd y prosiect gan grŵp llywio, gyda'r aelodaeth ganlynol:

- Dr Rebecca Khanna – Ymgynghorydd Addysgol, Hyfforddwr a Chyfarwyddwr Anweithredol, Ymddiriedolaeth Ysbyty GIG George Eliot
- Clair Parkin – Rheolwr Addysg (Ansawdd a Safonau), RCOT
- Maureen Shiells – Rheolwr Addysg, RCOT
- Julia Skelton – Cyfarwyddwr Gweithrediadau Proffesiynol, RCOT
- Dr Jo Watson, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Addysg ac Ymchwil, RCOT
- Lyn Westcott – Dirprwy Bennaeth, Ysgol Proffesiynau Iechyd, Athro Cysylltiol Therapi Galwedigaethol, Prifysgol Plymouth
- Emily Wheeler – Arweinydd Prosiect, RCOT.

# Cydnabyddiaeth

## Beth yw'r Safonau Dysgu a Datblygu ar gyfer Addysg Cyn Cofrestru?

Mae'r *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* (Y Safonau) yn adlewyrchu anghenion presennol y proffesiwn a'i hanghenion at y dyfodol, fel y'u pennwyd gan y rhanddeiliaid allweddol ac aelodau Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT). Mae'r ffaith bod ein proffesiwn yn un nad yw'n statig ond yn un ymatebol sy'n esblygu yn gryfder ac yn her. Rhaid i raddedigion sefydlu ymdeimlad cryf o hunaniaeth fel therapyddion galwedigaethol, fod â'r sgiliau a'r wybodaeth graidd, dangos proffesiynoldeb a meithrin sgiliau arwain i symud y proffesiwn ymlaen. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i bawb sy'n ymwneud ag addysgu'r gweithlu yn y dyfodol – addysgwyr, ymarferwyr, addysgwyr ymarfer, ymchwilwyr a rheolwyr – helpu i wireddu hyn trwy ymwneud â'r cysyniadau a fynegir yn y cyhoeddiad hwn.

Mae'r Safonau yn disgrifio disgwyliadau'r proffesiwn y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg eu bodloni wrth ddarparu rhaglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru yn y Deyrnas Unedig. Mae RCOT yn rheoli Proses Achredu, gan ddefnyddio'r Safonau hyn i asesu rhaglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru i sicrhau safon o ran eu dyluniad a'u darparu.

Mae'r gwerthoedd a'r credoau sy'n ganolog i therapi galwedigaethol wedi parhau yn ddigyfnewid i raddau helaeth trwy gydol oes y proffesiwn; fodd bynnag, mae siâp a ffurf ein gwasanaethau yn ddeinamig, fel y mae'r cyd-destunau y maent yn cael eu cyflwyno o'u mewn. Am y rheswm hwn, ac i sicrhau bod therapyddion galwedigaethol newydd yn cael eu paratoi yn addas ar gyfer eu gyrfa broffesiynol, mae'n hanfodol adolygu'r safonau a'r fframweithiau sy'n arwain eu haddysg yn gyson.

Yn 2018, parhaodd yr RCOT y cylch hwn o adolygiadau gan roi pwyslais ar y *Learning and development standards for pre-registration education* (COT 2014a) a'r *Learning and development standards for pre-registration education: accreditation process* (COT 2014b). Mae'r cyhoeddiadau hyn yn cefnogi darparwyr addysg wrth iddynt ddatblygu a darparu rhaglenni cyn cofrestru o safon ac yn disgrifio'r broses ar gyfer ymgeisio am achrediad y RCOT a'i gadw.

## Beth yw rôl Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT)?

Ni yw'r RCOT, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol. Rydym wedi hyrwyddo'r proffesiwn a'r bobl tu ôl iddo am dros 90 mlynedd; a heddiw, rydym yn ffynnu gyda dros 35,000 aelod. Bryd hynny a nawr, rydym yma i helpu cyflawni datblygiadau a all newid bywyd ein haelodau, y bobl a gefnogant a chymdeithas yn gyffredinol. Mae'r RCOT yn gosod y safonau proffesiynol ac addysgol ar gyfer y proffesiwn therapi galwedigaethol ac yn gweithio i safleoli'r proffesiwn, a'n holl aelodau, ar gyfer y dyfodol.

Mae'r RCOT yn gwarchod corff o wybodaeth sy'n sylfaen i ymarfer ac addysg therapi galwedigaethol yn y Deyrnas Unedig ac yn cynnwys aelodau mewn trafodaethau am y safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer a disgwyliadau ymddygiad proffesiynol. Drwy'r broses hon, mae'r RCOT yn penderfynu ar y trothwy ar gyfer 'ffitrwydd ar gyfer y proffesiwn'.

Mae Proses Achredu RCOT yn defnyddio'r Safonau i asesu a yw rhaglen cyn cofrestru, a'r darparwr addysg sy'n darparu'r rhaglen honno yn darparu'r wybodaeth, sgiliau a'r nodweddion proffesiynol sy'n angenrheidiol i ddysgwyr fodloni anghenion galwedigaethol y gymuned yn fedrus a moesegol. Ffederasiwn o sefydliadau therapi galwedigaethol yw Ffederasiwn y Byd o Therapyddion Galwedigaethol (WFOT) sy'n cael ei chydnabod gan y Cenhedloedd Unedig gyda statws swyddogol gan Sefydliad Iechyd y Byd. Yr WFOT sy'n gosod y safonau gofynnol ar gyfer therapi

galwedigaethol yn rhyngwladol (WFOT 2016). Fel aelod sefydliadol o'r WFOT, mae gan RCOT yr awdurdod dirprwyedig i roi cymeradwyaeth WFOT.

Felly, mae Proses Achredu RCOT yn sicrhau bod rhaglenni cyn cofrestru therapi galwedigaethol yn y Deyrnas Unedig yn:

- Cyrraedd y safonau addysgol a osodir gan y proffesiwn.
- Cyrraedd y safonau addysgol a osodir gan y gymuned ryngwladol.
- Ymatebol i faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang cyfredol ac a ragwelir a all effeithio ar y proffesiwn.
- Cynhyrchu graddedigion sy'n addas ar gyfer dyfarniad academaidd, ymarfer, eu diben a'r proffesiwn.
- Cynhyrchu graddedigion sydd â chymhwyster sy'n cael ei gydnabod gan unrhyw aelod wladwriaeth o'r WFOT.

Ceir rhagor o wybodaeth am Broses Achredu RCOT yn *http://www.rcot.co.uk/proses-achredu*

## Beth yw rôl Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)?

Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yw'r corff rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â'r proffesiynau iechyd yn y Deyrnas Unedig, a sefydlwyd gan y llywodraeth i ddiogelu'r cyhoedd. Mae HCPC yn cadw cofrestr o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol sy'n bodloni eu *Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg* (HCPC 2016), y *Safonau medrusrwydd penodol i'r proffesiwn (HCPC 2013) a'r Safonau datblygu proffesiynol parhaus* (HCPC 2018). Mae hefyd yn gosod *Safonau addysg a hyfforddiant* (HCPC 2017), a ddefnyddir i asesu rhaglenni cyn cofrestru, a thrwy hynny sicrhau bod dysgwyr sy'n cwblhau eu haddysg yn llwyddiannus yn cyrraedd y safonau medrusrwydd ac yn gymwys i gofrestru gyda'r HCPC. Tra bod yr HCPC yn pennu 'addasrwydd i ymarfer', RCOT sy'n pennu 'addasrwydd ar gyfer y proffesiwn,' sydd tu hwnt i ddisgwyliadau'r HCPC. Rhaid cael cymeradwyaeth gan yr HCPC i raglen cyn cofrestru cyn y gellir cael achrediad gan RCOT.

## Sut mae egwyddorion therapi galwedigaethol yn sail i addysg cyn cofrestru?

Cred therapyddion galwedigaethol bod y gallu i wneud galwedigaethau ystyrlon yn sylfaenol i hwyluso a chynnal iechyd a lles. Trwy wneud galwedigaethau (gweithgareddau yr ydym yn gorfod, angen neu eisiau eu gwneud), rydym yn cael ymdeimlad o'n gwerth ein hunain. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon dim ond 'bod a gwneud', mae angen i ni hefyd wneud galwedigaethau ystyrlon er mwyn dod yn rhywbeth yn y dyfodol. Felly trwy 'wneud, 'bod' a 'dod' rydym hefyd yn cael ymdeimlad o 'berthyn' i gymuned neu grŵp ehangach (Hitch et al 2014). Mae'r pedwar cysyniad o 'wneud', 'bod', 'dod' a 'pherthyn' yn gyd-gysylltiedig yn hytrach nag yn llinellol. Trwy ein dealltwriaeth o'r cysyniadau hyn, rydym hefyd yn gweld beth sy'n digwydd pan fydd pobl yn gwneud galwedigaethau sy'n ystyrlon ond yn niweidiol. Mae therapyddion galwedigaethol yn gweld bod iechyd a lles yn cael eu llunio trwy wneud galwedigaethau ystyrlon yn hytrach na chanolbwyntio ar ddiagnosis meddygol i bennu lles yr unigolyn.

Mae therapyddion galwedigaethol sy'n graddio o raglen cyn cofrestru wedi ei hachredu gan RCOT yn cael eu haddysgu mewn fframwaith bio-seicogymdeithasol i gynnig ymyraethau sy'n canolbwyntio ar alwedigaeth a'r unigolyn ar draws y sbectrwm o leoliadau cyhoeddus, annibynnol, preifat a thrydydd sector a systemau iechyd, llesiant, cymdeithasol a gofal integredig. Maent yn gymwys i fod yn weithwyr proffesiynol annibynnol, ystyriol y mae eu gwaith yn seiliedig ar gydnabyddiaeth sylfaenol o gyfraniad galwedigaeth ystyrlon at iechyd a llesiant meddyliol a

chorfforol unigolion. Beth bynnag yw'r lleoliad mae pwyslais y therapydd galwedigaethol bob amser ar alluogi unigolion a chymunedau i sefydlu ffyrdd o fyw sydd yn ystyrlon yn bersonol ac yn gynaliadwy ac sy'n cynnal cyflawni dyheadau galwedigaethol pobl.

Mae galwedigaeth yn hanfodol i iechyd a lles unigolion a chymuned ac mae'n nod ac yn brif offeryn i therapyddion galwedigaethol yn eu hymdrechion i gyflawni eu diben proffesiynol. Felly, rhaid i alwedigaeth fod yn ganolog i bob cwricwlwm therapi galwedigaethol cyn cofrestru, y mae pob pwnc arall yn cael eu plethu iddo. Rhaid i natur ganolog galwedigaeth mewn bywyd dynol ac yn y cwricwlwm therapi galwedigaethol gael ei esbonio yn glir i ddysgwyr iddynt brofi potensial trawsffurfiol galwedigaeth.

Er mwyn sicrhau bod gwerth therapi galwedigaethol yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi, rhaid i'r proffesiwn ddod yn eiriolwr cryfach iddo ei hun. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ddysgwyr sy'n paratoi ar gyfer y gweithlu dderbyn yn llwyr rym galwedigaeth i drawsnewid bywydau fel credo ganolog eu proffesiwn. Dylai'r gred hon fod yn greiddiol i hunaniaeth broffesiynol pob dysgwr, rhaid iddo fod yn sail i'r holl weithgareddau a dylid ei ddefnyddio i greu newid trawsffurfiol er budd unigolion a chymunedau sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol. Agwedd allweddol o greu newid yw dealltwriaeth o'r cyd-destunau lleol a thrwy'r system y mae'r therapyddion galwedigaethol yn gweithio ynddynt, yn ogystal â deallusrwydd gwleidyddol a sgiliau arwain ar bob lefel i sicrhau bod therapi galwedigaethol yn parhau i esblygu a pharhau yn berthnasol.

## Beth yw rôl y darparwr addysg?

Y darparwr addysg sy'n gyfrifol am sicrhau bod egwyddorion sylfaenol therapi galwedigaethol yn cael dylanwad ac yn siapio pob agwedd ar ddylunio a darparu rhaglen cyn cofrestru. Cyfrifoldeb y darparwr addysg hefyd yw galluogi i'r proffesiwn ddatblygu yn y dyfodol trwy sicrhau bod y gweithlu sy'n graddio yn barod i ymarfer mewn amgylcheddau sy'n newid ac yn ddeinamig. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu gallu a medrusrwydd mewn tri maes allweddol:

- Proffesiynoldeb: gan gynnwys hunaniaeth broffesiynol gref; gwerthoedd a chred sydd wedi hen sefydlu mewn therapi galwedigaethol; agweddau a dyheadau proffesiynol; a meddwl a gallu beirniadol.
- Gwybodaeth: gan gynnwys dealltwriaeth o natur a phwysigrwydd galwedigaeth i unigolion, cymunedau a phoblogaethau; y berthynas rhwng galwedigaeth ag iechyd a llesiant; diben proffesiynol therapi galwedigaethol a sut y mae therapi galwedigaethol yn gweithio i wella iechyd a llesiant. Mae gwybodaeth am y gwyddorau sylfaenol hefyd yn angenrheidiol, fel anatomi, ffisioleg, patholeg, seicoleg, gwyddor gymdeithasol a gwyddor alwedigaethol.
- Sgiliau: gan gynnwys amrywiaeth eang o sgiliau meddwl beirniadol, datrys problemau, a rhesymu; sgiliau proses therapi galwedigaethol; a sgiliau wrth ddadansoddi a defnyddio gweithgareddau fel cyfryngau therapiwtig.

Er mwyn gallu cyrraedd y Safonau hyn a chynnal ansawdd yn eu darpariaeth addysgol trwy gydol y cyfnod achrededig, rhaid i'r darparwr addysg fod wedi ymrwymo i gael adnoddau priodol i'r rhaglen cyn cofrestru. Rhaid i raglenni cyn cofrestru fod yn gynaliadwy yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, ac yn addas i'r diben. Rhaid i addysgwyr ac addysgwyr ymarfer fod yn barod, yn dymuno ac wedi cael adnoddau digonol i gefnogi dysgwyr ac mae'n hanfodol eu bod yn gredadwy i ddysgwyr a chymdeithas (WFOT 2016). Rhaid i addysgwyr hefyd gynnal eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyd-destunau ymarfer therapi galwedigaethol, yn ddelfrydol trwy gadw cysylltiad â lleoliad ymarferol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r proffesiwn wedi datblygu oddi wrth roi gwerth ar gwricwlwm cenedlaethol ar gyfer addysg cyn cofrestru therapi galwedigaethol, yn unol â

phroffesiynau iechyd eraill. Felly nid pwyslais y Safonau yw disgrifio yn fanwl beth ddylid ei ddysgu. Yn hytrach mae RCOT wedi amlinellu'r disgwyliadau sydd gan y proffesiwn ar gyfer y peirianweithiau a'r prosesau sy'n ofynnol i ddarparu addysg cyn cofrestru o ansawdd uchel. Mae hyn yn gadael i bob darparwr addysg fabwysiadu dull unigryw, i fanteisio ar eu cryfderau penodol a datblygu rhaglen cyn cofrestru sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr. Yn y ffordd hon nid yw rhaglenni a graddedigion therapi galwedigaethol cyn cofrestru yn unffurf ond yn hytrach maent yn adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth y proffesiwn, y cyd-destunau y maent yn ymarfer ynddynt a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol. Fodd bynnag rhaid i gaffael y gwerthoedd craidd, y credoau, nodweddion proffesiynol, y wybodaeth a'r sgiliau sy'n sylfaenol i therapi galwedigaethol fod yn gyffredin i'r holl raglenni cyn cofrestru.

## Sut ydym ni'n paratoi'r genhedlaeth nesaf o therapyddion galwedigaethol?

Disgwylia RCOT, gan adlewyrchu sefyllfa'r proffesiwn, i ddarparwyr addysg ddatblygu rhaglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru sy'n denu dysgwyr a all ddangos llwyddiant academaidd ac sy'n eu paratoi ar gyfer cymhlethdod yr arfer sy'n dod i'r amlwg (WFOT 2016). Nid oes amheuaeth bod y gweithlu therapi galwedigaethol ac anghenion galwedigaethol cymunedau wedi newid yn gyflym dros y blynyddoedd diwethaf a rhaid i'r proffesiwn ragweld y sialensiau cynyddol nid ymateb iddynt. Mae'r galw presennol ar y gweithlu iechyd, llesiant, gofal a gofal integredig, ynghyd â'r costau anghynaladwy, yn golygu bod angen i therapyddion galwedigaethol gael eu defnyddio yn fwy effeithlon. Yn y gweithlu therapi galwedigaethol, mae hyn yn gofyn am dderbyn rolau eraill fel rhai cynllunio gweithlu neu ymgynghorol, yn ychwanegol at yr arfer rheng flaen a rolau darparu gwasanaeth presennol. Rhaid i sgiliau traddodiadol sy'n ymwneud â gofal uniongyrchol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ar lefel unigol gael eu haddasu fel bod therapyddion galwedigaethol yn gallu ymestyn eu dylanwad ar ddylunio, gweithredu a gwerthuso ymyraethau iechyd i'r boblogaeth a chynllunio gweithlu (WFOT 2016, Council of Deans of Health 2017). Mae newid o'r fath yn gofyn am baratoad addysgol a gallu gwahanol, fel ymchwil cadarnach (McCormack et al 2019), sgiliau gweinyddol a rheoli, gyda chefnogaeth sgiliau arwain, y gallu i addasu ac ymwybyddiaeth wleidyddol (WFOT 2016). Er mwyn trawsnewid gweithlu yn effeithiol, mae hyblygrwydd a gwytnwch personol yn allweddol a rhaid hefyd eu datblygu mewn rhaglenni cyn cofrestru.

Rhaid i ddysgwyr fod yn barod i gymryd rhan a chyfrannu at drafodaethau sy'n cael dylanwad ar rôl bresennol a rolau therapyddion galwedigaethol yn y dyfodol, er enghraifft trafodaethau am beirianweithiau meddygaeth, cwmpas arfer ac ail-ddylunio gwasanaethau. Mae gwerthfawrogi rôl therapyddion galwedigaethol yn y tîm aml-ddisgyblaeth yn allweddol oherwydd y cyd-destunau ehangach y mae modelau rhyng-sectoraidd o ofal yn cael eu gweithredu ynddynt. Mae ymroddiad i waith tîm cydweithredol yn bwysig; ond, mae'r sgiliau i weithredu tîm o gwmpas unigolyn, addasu a gwella'r system a'r amgylchedd y rhoddir gofal ynddo neu y mae pobl yn gwneud galwedigaethau ynddo, hefyd yn hanfodol.

Fel y nodwyd gan yr WFOT, mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau 1000 awr o ddysgu wrth ymarfer llwyddiannus yn eu rhaglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru. Yn hanesyddol mae dysgu wrth ymarfer wedi digwydd mewn lleoliadau lle mae'r rôl wedi ei sefydlu, fel ysbytai a gwasanaethau iechyd cymunedol; fodd bynnag, mae lleoliadau gwahanol a heb fod yn draddodiadol yn awr yn ganolog i brofiad y dysgwr. Er mwyn bodloni Safonau RCOT, mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg ddatblygu partneriaethau gydag amrywiaeth o ddarparwyr dysgu wrth ymarfer, fel:

- Lleoliadau cyhoeddus, annibynnol, preifat a thrydydd sector.
- Lleoliadau trefol, gwledig, lleol neu ryngwladol.
- Lleoliadau heb fod ar y rheng flaen, er mwyn cael profi rolau strategol ac arwain (Kolyva et al 2018) a/neu mewn adrannau ymchwil neu sefydliadau (Baltruks a Callaghan 2018, McCormack et al 2019).

- Sefydliadau i bobl nad ydynt yn cael digon o waith, heb rym, wedi eu hamddifadu neu eu hallgau yn gymdeithasol.
- Sefydliadau sy'n gofalu am bobl o wahanol oedrannau, o gyd-destunau cymdeithasol-economaidd a diwylliannol gwahanol, sydd ag anghenion galwedigaethol a gododd yn ddiweddar a rhai tymor hir a'r rhai sydd â gwahanol allu corfforol a seico-gymdeithasol.
- Lleoliadau yn defnyddio dulliau unigol, grŵp, cymuned a phoblogaeth.
- Lleoliadau lle nad oes therapyddion galwedigaethol yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd.

Bydd cael profiad o amrywiaeth eang o leoliadau dysgu wrth ymarfer yn cynhyrchu gweithlu fydd yn alluog ac yn awyddus i weithio ar draws nifer o feysydd ac un sy'n deall yr amrywiaeth o gyd-destunau lle gall rôl y therapydd galwedigaethol gael ei gwerthfawrogi. Mae cyfleoedd i ddysgwyr brofi dysgu wrth ymarfer mewn lleoliadau lle na fu rolau therapi galwedigaethol yn y gorffennol yn bwysig i ddatblygu dysgwyr â hunaniaeth broffesiynol gref a all arwain newid. Rhaid i ddarparwyr addysg a darparwyr dysgu wrth ymarfer gydweithio i ymdrin â sialensiau penodol yn ymwneud â lleoliadau o'r fath, a all fod angen cefnogaeth ychwanegol a chyfarwyddyd wedi ei strwythuro (Dancza et al 2019). Ni ddylid mynd ati i gynnig cymaint o amrywiaeth o gyfleoedd gyda'r unig fwriad o ymdrin ag unrhyw brinder cyfleoedd dysgu wrth ymarfer traddodiadol, ac mae'n cael ei gydnabod y gall yr amrywiaeth o gyfleoedd fod yn gyfyngedig gan y berthynas gyda darparwyr dysgu yn seiliedig ar ymarfer, y boblogaeth sy'n heneiddio a gallu dysgwyr i deithio.

Mae gan RCOT, darparwyr addysg, darparwyr dysgu wrth ymarfer a llawer o randdeiliaid eraill rôl wrth gefnogi a dylanwadu ar y ddyfodol y proffesiwn therapi galwedigaethol, trwy bwyslais ac ansawdd yr addysg cyn cofrestru.

## Sut mae llwybrau addysg cyn cofrestru newydd yn cael eu hystyried?

Wrth i'r proffesiwn barhau i esblygu, felly hefyd y mae'r llwybrau i'r proffesiwn. Y Radd Brentisiaeth yw'r llwybr mynediad gwahanol diweddaraf i gael ei ddatblygu. Y brif nodwedd ddiffiniol o'r model addysgol hwn yw bod datblygiad y safon prentisiaeth a'r cynllun asesiad terfynol cysylltiedig wedi eu harwain gan gyflogwyr a'u cyd-ddylunio gan gonsortiwm o gyflogwyr, addysgwyr, a chyrff proffesiynol a rheoleiddiol. Dosberthir amser y prentisiaid rhwng yr amser 'yn y gwaith' yn y gweithle a'r hyn sy'n digwydd mewn amgylchedd dysgu ffurfiol yn gysylltiedig â chyflawni gofynion y dyfarniad, sy'n debygol o gael eu cynrychioli gan raniad o tua 80/20 rhwng y ddau leoliad. Rhaid cael eglurder o ran pryd y bydd dysgwr unigol yn cael ei ystyried yn 'weithiwr' a phryd y bydd yn cael ei ystyried yn 'ddysgwr'. Mae gofyn hefyd i'r 1000 o oriau o ddysgu wrth ymarfer gael eu cwblhau yn llwyddiannus tu allan i'r lleoliad lle maent yn gyflogedig (Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol 2018).

Darparwyr addysg sy'n parhau yn gyrff dyfarnu i'r cymhwyster addysg uwch sy'n ofynnol i gwblhau'r Radd Brentisiaeth ac felly mae ganddynt gyfrifoldeb am sicrhau bod rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru a achredwyd gan RCOT yn cadw at y Safonau. Mae'r Safonau hyn ar gyfer pob llwybr; fodd bynnag, mae gofynion penodol sy'n berthnasol i brentisiaethau gradd wedi cael eu hamlygu, gan gynnwys tystiolaeth bod cyflogwyr yn ymroddedig i gyrraedd yr un disgwyliadau â darparwyr addysg parthed digon o adnoddau i warantu ansawdd yn y cyfleoedd addysg a dysgu a gynigir.

O leiaf 12 mis cyn yr asesiad terfynol cyntaf a drefnwyd, mae'n ofynnol i'r darparwr addysg gyflwyno tystiolaeth eu bod wedi eu cofnodi ar y Gofrestr o Sefydliadau Asesu Terfynol, neu eu bod wedi penodi asesydd terfynol o blith y rhai sydd wedi cael eu cofnodi yn llwyddiannus ar y Gofrestr. Bydd y gofynion ychwanegol hyn yn sicrhau bod prentisiaethau gradd yn cael eu darparu yn ôl yr un safonau cadarn â'r llwybrau eraill i'r proffesiwn.

## Sut y datblygwyd y Safonau?

Mae RCOT wedi adlewyrchu disgwyliadau'r proffesiwn therapi galwedigaethol am y safonau addysgol ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru ar ffurfiau gwahanol am tua 90 mlynedd. Yn niwedd 2018, cychwynnodd RCOT ar adolygiad o'r *Learning and development standards for pre-registration education* (COT 2014a), gan roi adnoddau ac amser sylweddol i sicrhau bod y broses yn cael ei chynnal yn drylwyr a bod y canlyniad yn adlewyrchu consensws y proffesiwn therapi galwedigaethol. Sefydlwyd pwyllgor llywio i oruchwylio ac arwain y prosiect trwy gydol y broses o'i sefydlu a'i weithredu.

Cychwynnwyd yr adolygiad trwy gynnal dadansoddiad manwl o'r Safonau presennol a thrafodaeth gyda'r rhanddeiliaid allweddol am eu cryfderau a'r elfennau oedd angen eu hadolygu yn drylwyr. Yn unol â'r adborth a dderbyniwyd, ailstrwythurwyd y cynnwys i fod yn gyson *â'r Standards of education and training* (HCPC 2017) ac i adlewyrchu'n fwy clos y *Minimum standards for the education of occupational therapists* (WFOT 2016) sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol. I gyd-redeg â hyn, mabwysiadwyd dull ymgynghori cydweithredol ac ar sail tystiolaeth (International Association for Public Participation 2018) i sicrhau bod mewnbwn gan ymarferwyr, addysgwyr, addysgwyr sy'n ymarfer, dysgwyr, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, ymchwilwyr a'r rhwydweithiau RCOT ehangach.

**Cam Ymgynghori 1 (Rhagfyr 2018–Ionawr 2019)**
Roedd y cam ymgynghori cyntaf yn golygu cynnwys arbenigedd staff RCOT sy'n brofiadol mewn addysg, achredu ac arfer proffesiynol i ddatblygu a rhoi trefn derfynol ar y drafft cyntaf o'r Safonau newydd.

**Cam Ymgynghori 2 (Mawrth–Ebrill 2019)**
Roedd Cam Ymgynghori 2 yn canolbwyntio ar adolygu'r drafft cyntaf yn fanwl a thrafod y fformat cyffredinol, strwythur, iaith, diffiniadau a'r dull. Cynhaliwyd y drafodaeth fel grŵp ffocws anghydamserol ar-lein dros dair wythnos, gyda'r drafft yn cael ei gylchredeg ar y dechrau a'r cwestiynau i'w trafod yn cael eu gofyn ar ddechrau pob wythnos. Adolygwyd y dull ymgynghori hwn a'i gymeradwyo trwy weithdrefn moeseg a llywodraethu ymchwil RCOT [Rhif cyfeirio PE30/2019](RCOT 2017a).

Roedd y grŵp ffocws anghydamserol ar-lein yn cynnwys mewnbwn grŵp dethol o randdeiliaid allanol allweddol yn cynrychioli'r pedair gwlad. Gwahoddwyd rhwydwaith ehangach o bron i 100 o randdeiliaid, gyda 31 o unigolion yn cytuno i gymryd rhan ac yna yn cyfrannu mewn ffordd ystyrlon at y drafodaeth. Roedd cyfanswm o dros 570 o elfennau unigol o adborth a gynigiwyd yn ystod y grŵp ffocws anghydamserol ar-lein. Roedd pob elfen wedi ei chodi a'i dadansoddi, gan ddefnyddio offeryn rheoli data ansoddol, gan ganiatáu i feysydd lle'r oedd consensws gael eu nodi ac i feysydd i'w trafod ymhellach gael eu hamlygu. Pan oedd cytundeb, gweithredwyd y newid. Pan oedd y rhesymeg dros wneud y newid a awgrymwyd yn llai clir, roedd yn cael ei drafod ymhellach gyda staff RCOT a'r grŵp llywio, cyn i benderfyniad gael ei wneud. Yn dilyn hyn, rhoddwyd trefn derfynol ar ail ddrafft o'r Safonau newydd.

**Cam Ymgynghori 3 (Mai–Mehefin 2019)**
Roedd y cam ymgynghori terfynol yn golygu cylchredeg yr ail ddrafft o'r Safonau newydd trwy arolwg ar-lein i aelodau a rhwydweithiau RCOT i gael adborth ehangach gan y proffesiwn a rhanddeiliaid eraill. Adolygwyd y dull ymgynghori hwn a'i gymeradwyo trwy weithdrefn moeseg a llywodraethu ymchwil RCOT [Rhif cyfeirio PE31/2019] (RCOT 2017a).

Ynghyd â chwestiynau am eglurder, roedd yr arolwg ar-lein yn gwahodd adborth penodol o ran a oedd y Safonau yn paratoi dysgwyr yn ddigonol i weithio mewn amrywiaeth eang o leoliadau ac i fodloni anghenion y boblogaeth wrth iddynt newid. Derbyniwyd ymatebion gan 25 o unigolion, gyda 92% yn cytuno bod y Safonau newydd yn paratoi dysgwyr ar gyfer amrywiaeth eang o leoliadau a 100% yn cytuno y bydd y Safonau newydd yn sicrhau bod dysgwyr yn barod i fodloni anghenion galwedigaethol eu cymuned. Ymgorfforwyd awgrymiadau i wella eglurder a chynhaliwyd adolygiad terfynol gan aelodau o'r grŵp llywio.

Yn dilyn yr ymgynghoriad mewn tri cham, rhoddwyd trefn derfynol ar gynnwys y Safonau newydd a'u cadarnhau i'w cyhoeddi gan y grŵp llywio. Yn gyfochrog â hynny adolygwyd a diweddarwyd Proses Achredu RCOT, i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r Safonau newydd. Ceir rhagor o wybodaeth am Broses Achredu RCOT yma http://www.rcot.co.uk/proses-achredu

Yn bennaf mae'r Safonau newydd yn gweithio i gefnogi darparwyr addysg i ddylunio a chyflwyno rhaglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru o ansawdd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cynnwys wedi cael ei fireinio gyda mewnbwn rhanddeiliaid, i sicrhau bod gan arweinwyr proffesiynol – lefel strategol ac arweinwyr rhaglenni – lefel weithredol y sylfaen a'r dystiolaeth y mae arnynt eu hangen i eiriol am adnoddau a chefnogaeth briodol yn eu sefydliadau.

Yn ychwanegol at fod ar sail deilliannau yn bennaf, mae'r newidiadau mwyaf arwyddocaol sy'n gwahaniaethu rhwng y Safonau newydd a'r fersiwn flaenorol yn cynnwys:

- Cysoni â'r *Standards of education and training* (HCPC 2017).
- Disgwyliadau cryfach o rôl y darparwr addysg wrth hyrwyddo cymdeithas sy'n fwy cynhwysol a chyfranogol.
- Cynnwys y llwybr rhaglen prentisiaeth cyn cofrestru.
- Egluro rôl Arweinwyr Proffesiynol – Lefel Strategol ac Arweinwyr Rhaglenni – Lefel Weithredol.
- Manylu ar y gymhareb o addysgwyr i ddysgwyr.
- Gofyn i addysgwyr fod wedi cymhwyso ar lefel uwch, neu gyfatebol i'r un y maent yn ei dysgu.
- Cynnwys dysgu wrth ymarfer efelychiadol ac astudio wedi ei gyfarwyddo gan yr unigolyn fel rhai sy'n gymwys ar gyfer eu cynnwys yn y gofyn am 1000 o oriau o ddysgu wrth ymarfer.
- Cael gwared â'r gofyn i diwtor fod yn therapydd galwedigaethol.
- Gwell gwybodaeth am reoli dysgwyr sy'n tan-gyflawni.
- Atgyfnerthu elfennau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol i sicrhau bod y proffesiwn yn barod at y dyfodol fel sgiliau ymchwil a gallu o ran llythrennedd digidol.

Mae'r cyfarwyddyd a'r dystiolaeth yn disgrifio'r dogfennau penodol sy'n ofynnol gan RCOT yn ystod y Broses Achredu. Mae'n bosibl y gall un ffynhonnell tystiolaeth ddangos nifer o feini prawf, felly mae ailadrodd bwriadol yn y golofn 'Cyfarwyddyd a thystiolaeth'.

Yn unol â dull yr RCOT o wella ansawdd yn barhaus, bydd y Safonau newydd yn cael eu hadolygu, a'u diweddaru ar ôl pum mlynedd.

# Diffiniadau a thermau

| | |
|---|---|
| **Addysgwr** | Unigolyn â'r wybodaeth arbenigol berthnasol a'r arbenigedd, a gyflogwyd neu a benodir gan ddarparwr addysg i addysgu'r rhaglen cyn cofrestru. Rhaid i addysgwyr sy'n addysgu gwybodaeth a sgiliau penodol i therapi galwedigaethol fod yn therapyddion galwedigaethol. Gall addysgwyr hefyd gael eu galw yn 'academyddion', 'tiwtoriaid' neu 'ddarlithwyr'. |
| **Addysgwr ymarfer** | Therapydd galwedigaethol sy'n goruchwylio, hwyluso dysgu, asesu a chefnogi dysgwr yn ystod y 1000 o oriau o ddysgu wrth ymarfer a gwblhawyd yn llwyddiannus gofynnol. Fel arfer, mae gan yr addysgwr ymarfer waith gyda'r darparwr dysgu yn seiliedig ar ymarfer ac mae'n cymryd y rôl o addysgwr ymarfer fel elfen o'i brif swydd. Pan fydd dysgu wrth ymarfer yn digwydd mewn lleoliad heb rolau therapi galwedigaethol, ni fydd yr addysgwr ymarfer yn therapydd galwedigaethol. Yn hytrach, gall y rôl gael ei llenwi gan aelod arall o'r staff a gyflogir gan y darparwr dysgu wrth ymarfer sy'n cynnig addysg a chefnogaeth yn benodol i'r lleoliad. Mewn achosion o'r fath, rhaid i oruchwyliaeth ac asesu sgiliau penodol i therapi galwedigaethol gael eu rhoi trwy oruchwyliaeth hyd braich gan therapydd galwedigaethol. Gall addysgwyr ymarfer hefyd gael eu galw yn 'diwtoriaid lleoliad ymarfer'. |
| **Andragogig** | Theori dysgu oedolion, a ddiffinnir gan nifer o egwyddorion allweddol gan gynnwys bod oedolion sy'n ddysgwyr yn annibynnol, yn cyfarwyddo eu hunain, yn cael eu harwain gan nodau, yn cael eu cymhelliant yn fewnol ac yn dysgu yn fwyaf effeithiol pan fydd yr addysg yn un berthnasol i ymarfer (Gewurtz et al 2016). |
| **Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol** | Y rôl yn y darparwr addysg sy'n gyfrifol am arwain y set o raglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru.<br><br>Mae'r Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol:<br><br>• Yn therapydd galwedigaethol.<br>• Mae ganddo ystod eang o brofiad proffesiynol, gan gynnwys penodiad academaidd gwirioneddol gan ddarparwr addysg.<br>• Yn arwain datblygu a gweithredu rhaglenni cyn cofrestru cyfoes, creadigol a blaengar yn strategol.<br>• Yn cael yr awdurdod gan y darparwr addysg i ofalu bod y rhaglen cyn cofrestru yn cyd-fynd â'r *Safonau Dysgu a Datblygu ar gyfer Addysg Cyn Cofrestru*.<br>• Yn dyrannu therapydd galwedigaethol, a gyflogwyd gan y darparwr addysg, i fod â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu cyfleoedd dysgu wrth ymarfer ar draws ystod o leoliadau dysgu wrth ymarfer. |

| | |
|---|---|
| | ● Yn cysylltu gydag uwch reolwyr y darparwr addysg i sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r Safonau ac yn eu cefnogi.<br>● Yn cydnabod anghenion y proffesiwn wrth iddynt newid ac yn addasu'r rhaglen cyn cofrestru i ymdrin a'r anghenion hyn.<br>● Yn cydnabod y newid yn anghenion y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol ac yn addasu'r rhaglen cyn cofrestru i ymdrin â'r anghenion hyn.<br>● Yn meddu gallu dan Lefel 7 y piler Arweinyddiaeth yn Fframwaith Datblygu Gyrfa (RCOT 2017b).*<br>● Yn aelod o RCOT.<br>● Yn hwyluso a chefnogi ymwneud cydweithwyr a dysgwyr â RCOT.<br>Gall yr un unigolyn fod yn Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol ac yn Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol ar yr un pryd, ond mae'n debygol y byddai baich gwaith y ddwy rôl yn atal y trefniant hwn ac felly mae'n fwy cyffredin i'r rolau gael eu dal gan unigolion gwahanol. |
| **Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol** | Y rôl yn y darparwr addysg sy'n gyfrifol am arwain y rhaglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru. Mae'r Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol:<br>● Yn therapydd galwedigaethol.<br>● Yn gyfrifol am sicrhau bod y *Safonau Dysgu a Datblygu ar gyfer Addysg Cyn Cofrestru* yn cael eu cyrraedd.<br>● Yn uniongyrchol gyfrifol am ddatblygu'r rhaglen cyn cofrestru.<br>● Yn gyfrifol am drefnu gwaith cynllunio a gweinyddu'r rhaglen cyn cofrestru.<br>● Yn aelod o RCOT.<br>● Yn hwyluso a chefnogi ymwneud gweithredol cydweithwyr a dysgwyr â RCOT.<br>Gall swydd yr Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol fod yn swydd sy'n cylchdroi, gan roi cyfle i hybu gyrfa ac ehangu sgiliau i unigolion gwahanol. Gall yr un unigolyn fod yn Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol ac yn Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol ar yr un pryd, ond mae'n debygol y byddai baich gwaith y ddwy rôl yn atal y trefniant hwn ac felly mae'n fwy cyffredin i'r rolau gael eu dal gan unigolion gwahanol. |
| **Asesiad terfynol** | Asesiad annibynnol ar ddiwedd y rhaglen brentisiaeth cyn cofrestru, i asesu a yw'r dysgwr wedi llwyddo i gael medrusrwydd ac yn |

* 'Lansiwyd yr ailargraffiad o'r Fframwaith Datblygu Gyrfa yn 2021 (RCOT 2021a), gan ddisodli'r argraffiad cyntaf (RCOT 2017b).

| | |
|---|---|
| | gymwys i gael dyfarniad sy'n arwain at fod yn gymwys i ymgeisio am gael ei gofrestru fel therapydd galwedigaethol gyda'r HCPC. Mae asesu terfynol trylwyr, cadarn ac annibynnol yn hanfodol i roi hyder i gyflogwyr bod prentisiaid yn gymwys ac yn gallu mynd i mewn i'r proffesiwn therapi galwedigaethol.<br><br>Penderfyniad y cyflogwr yw rhoi dysgwr ymlaen i gael asesiad terfynol, unwaith y bydd yn hyderus bod y dysgwr yn barod. Gall y cyflogwr, yn ôl ei farn, ymgynghori â'r dysgwr a/neu ddarparwr/ddarparwyr addysg. Caiff annibyniaeth yr asesiad terfynol ei sicrhau drwy: y bwrdd arholi, fydd yn cynnwys yr arholwr allanol, fydd yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol ar ddyfarnu'r cymhwyster sy'n cadarnhau fod y prentis wedi cyflawni'r deilliannau addysg sydd eu hangen ar gyfer cofrestru gyda'r HCPC; a'r sefydliad asesu terfynol (Darparydd Addysg Cymeradwy HCPC) fydd yn cynnal yr asesiad terfynol (IfA 2021b).<br><br>O leiaf 12 mis cyn yr asesiad terfynol cyntaf a drefnwyd, mae'n ofynnol i'r darparwr addysg gyflwyno tystiolaeth i RCOT ei fod wedi cofrestru ar y Gofrestr o Sefydliadau Asesu Terfynol. |
| **Astudio wedi ei gyfarwyddo gan yr unigolyn yn ystod dysgu wrth ymarfer** | Y cyfnod diffiniedig o ddysgu wedi ei gyfarwyddo gan yr unigolyn a wneir fel rhan o'r dysgu wrth ymarfer sy'n cyfrannu at y 1000 o oriau gofynnol o ddysgu wrth ymarfer a gwblhawyd yn llwyddiannus. Yr uchafswm o astudio wedi ei gyfarwyddo gan yr unigolyn a all gyfrannu at y 1000 o oriau o ddysgu wrth ymarfer yw 3.5 awr bob wythnos, neu'r cyfanswm cyfatebol pro-rata ar gyfer gweithgareddau dysgu wrth ymarfer nad ydynt yn llawn amser. |
| **CV – curriculum vitae** | Dogfennau yn disgrifio cymwysterau, arbenigedd a phrofiad unigolion. |
| **Cwricwlwm** | Dogfen benodol yn disgrifio'r deilliannau dysgu, dulliau addysgol a'r asesiadau am bob elfen o'r rhaglen cyn cofrestru. |
| **Cyflogwr** | Sefydliad cyhoeddus, annibynnol neu drydydd sector sy'n cyflogi pobl i wneud rôl benodol gyda thelerau ac amodau sy'n dderbyniol yn gyfreithiol a chontractaidd. Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru y cyflogwr yw'r sefydliad sy'n cyflogi unigolyn i wneud gwaith penodol sy'n cynnwys hyfforddi neu ddatblygu sgiliau fel rhan o'r rôl. Mewn achosion o'r fath, rhaid i gyflogwyr gyflogi'r unigolyn nes bydd ei hyfforddiant a'i asesiad terfynol wedi eu cwblhau. |
| **Cynllun astudio unigol** | Y dogfennau sy'n diffinio unrhyw amrywiad yng nghynnydd dysgwr trwy'r rhaglen cyn cofrestru, hynny yw, unrhyw ddargyfeiriad oddi ar y llwybr cynnydd arferol trwy raglen cyn cofrestru y mae dysgwr unigol wedi ei gymeradwyo i'w ddilyn. Rhaid i'r amrywiad gael ei fapio yn glir a'i drafod gyda'r dysgwr.<br><br>Bydd y meini prawf ar gyfer penderfynu pryd y bydd cynllun astudio unigol yn cael ei ystyried a'i weithredu yn cael eu cofnodi gan y darparwr addysg. Ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael |

| | |
|---|---|
| | cynllun astudio unigol, dylid ei sefydlu ar y cyfle cyntaf posibl a rhaid i unrhyw newidiadau ac addasiadau a fydd yn cael eu gwneud i'r rhaglen cyn cofrestru i weddu i anghenion y dysgwr gael eu diffinio.<br><br>Rhaid i unrhyw newidiadau ac addasiadau ddal i fodloni gofynion y darparwr addysg a'r *Safonau Dysgu a Datblygu ar gyfer Addysg Cyn Cofrestru*. Rhaid i gynllun dysgu unigol gael ei gytuno gan y dysgwr, yr addysgwr a'r Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol.<br><br>Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, rhaid i'r cyflogwr hefyd gytuno arno. Rhaid cael proses adolygu briodol a ddiffinnir pan fydd y cynllun astudio unigol yn cael ei sefydlu a dylai'r darparwr addysg gadw at hwn. Mae'r enghreifftiau o achlysuron pan y gellid ystyried cynllun astudio unigol yn cynnwys ar gyfer absenoldeb mamolaeth neu ddychwelyd i astudio bob yn gam yn dilyn cyfnod sylweddol o salwch. Gall cynllun astudio unigol hefyd gael ei alw yn 'llwybr unigolyddol'. |
| **Darparwr addysg** | Y corff dyfarnu sy'n cyflwyno neu oruchwylio rhaglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru. Gall darparwyr addysg hefyd gael eu hadnabod fel 'sefydliadau addysg uwch' neu 'brifysgolion'. |
| **Darparwr dysgu wrth ymarfer** | Y gwasanaeth, sefydliad neu fusnes sy'n gwesteio dysgwyr yn ystod eu dysgu wrth ymarfer. Gall darparwyr dysgu wrth ymarfer hefyd gael eu galw yn 'ddarparwyr lleoliad ymarfer'. |
| **Datblygiad Proffesiynol Parhaus** | Y ffordd y mae unigolyn yn parhau i ddysgu a datblygu trwy gydol ei yrfa, gan gynnwys yn ystod ei raglen cyn cofrestru. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn hanfodol ac yn datblygu sgiliau, gwybodaeth, hunaniaeth broffesiynol ac ymddygiad proffesiynol fel bod unigolion yn cael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ymarfer yn ddiogel ac effeithiol (Broughton a Harris 2019). |
| **Diogelu** | Y broses sydd wedi ei sefydlu o fewn darparwr addysg i ddiogelu dysgwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol rhag profi niwed, gan gynnwys bwlio ac aflonyddu. |
| **Disgwyliadau ymddygiad moesegol a phroffesiynol y proffesiwn** | Y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r Cod ymddygiad moesegol a phroffesiynol (COT 2015a). Bydd y *Cod moeseg ac ymddygiad proffesiynol* yn cael ei adolygu yn fuan ar ôl cyhoeddi'r *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* ac efallai y bydd iddo deitl newydd.* |
| **Dogfennau'r rhaglen** | Tystiolaeth a roddwyd gan y darparwr addysg fel rhan o Broses Achredu RCOT, gan gynnwys y cyflwyniadau ysgrifenedig a'r trafodaethau gyda rhanddeiliaid mewn Ymweliad Achredu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn: http://www.rcot.co.uk/proses-achredu |

* Cafodd y *Safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer, ymddygiad a moeseg therapi galwedigaethol* eu cyhoeddi yn 2021 (RCOT 2021a) gan ddisodli'r *Cod moeseg a Safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer therapi galwedigaethol*.

| | |
|---|---|
| **Dyfarniad** | Y cymhwyster therapi galwedigaethol a roddir i ddysgwr yn dilyn cwblhau rhaglen cyn cofrestru yn llwyddiannus. |
| **Dyfarniad aegrotat** | Dyfarniad heb ei ddosbarthu a all gael ei roi pan fydd dysgwr yn methu cymryd ei arholiad oherwydd salwch neu farwolaeth, a phan fydd wedi cael ei bennu y byddai'r ymgeisydd wedi llwyddo fel arall. Ni fydd dyfarniad aegrotat yn arwain at gymhwyster i ymgeisio am gael cofrestru fel therapydd galwedigaethol gyda'r HCPC nac aelodaeth broffesiynol o'r RCOT. |
| **Dyfarniad gadael** | Cynigir dyfarniad is i gydnabod cyrraedd credyd academaidd sy'n llai na'r un gofynnol ar gyfer y dyfarniad terfynol. Bydd gan bob darparwr addysg ei set ei hun o reoliadau am pryd, neu os bydd hyn yn berthnasol i'r rhaglenni cyn cofrestru y byddant yn eu darparu ac ni ddylid tybio bod dyfarniadau gadael yn cael eu rhoi gan bob darparwr addysg. Enghraifft o ddyfarniad gadael yw pan fydd y dyfarniad is o ddiploma ôl-radd yn cael ei roi pan na chyrhaeddwyd y lefel academaidd i gael gradd meistr. Rhaid i'r dyfarniad is nodi yn glir beth yw'r llwyddiant academaidd ac ymarferol sy'n ofynnol ac a yw'r dyfarniad is yn rhoi cymhwyster i ymgeisio am gofrestru gyda'r HCPC. |
| **Dysgu gydol oes** | Cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n caniatáu i'r unigolyn ddatblygu yn barhaus a gwella'r wybodaeth a'r sgiliau y mae arno eu hangen ar gyfer gwaith a boddhad personol (Broughton a Harris 2019). |
| **Dysgu rhyngbroffesiynol** | Dysgwyr o wahanol broffesiynau yn cymryd rhan yn weithredol i ddysgu gyda, oddi wrth ac am ei gilydd. Y deilliant disgwyliedig o ddysgu rhyngbroffesiynol yw datblygu diwylliant gwaith o gydweithio ac integreiddio effeithiol ar ofal ar draws asiantaethau, sectorau a phroffesiynau yn a thu hwnt i'r systemau iechyd, llesiant, cymdeithasol a gofal integredig. |
| **Dysgu wrth ymarfer** | Therapi galwedigaethol yn cael ei gyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau sy'n gadael i ddysgwyr ddefnyddio ac ymarfer eu gwybodaeth a'u sgiliau newydd mewn amgylchedd diogel. Yn draddodiadol mae dysgu wrth ymarfer wedi digwydd mewn lleoliadau lle mae'r rôl wedi ymsefydlu, fel ysbytai a gwasanaethau iechyd cymuned; ond, mae lleoliadau gwahanol ac heb fod yn draddodiadol hefyd yn ganolog i raglenni cyn cofrestru. Mae cynnwys lleoliadau dysgu yn seiliedig ar ymarfer lle nad oes rôl therapi galwedigaethol ar y pryd yn bwysig i ddatblygu arweinwyr sydd â sgiliau arwain a all weithio mewn lleoliadau amrywiol. |
| **Dysgu wrth ymarfer efelychiadol** | Amgylcheddau wedi eu llunio yn artiffisial i gynrychioli sefyllfaoedd gwirioneddol sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer sgiliau clinigol a llunio penderfyniadau mewn amgylchedd diogel. Mae'n rhoi cyfle i ailadrodd, adborth, gwerthuso ac ystyried, gydag enghreifftiau yn cynnwys dysgu ar sail fideo, chwarae rôl, sefyllfaoedd lle mae dysgwyr neu eraill yn actio'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau therapi galwedigaethol, sefyllfaoedd yn defnyddio actorion sydd |

| | |
|---|---|
| | wedi eu hyfforddi yn broffesiynol, a defnyddio cyrff cyfrifiadurol (Reed 2014). Dylai'r dull a ddewisir gael ei bennu yn ôl y deilliannau dysgu (Toserud et al 2013) a chael ei ddefnyddio yn effeithiol a chymesur i gefnogi dysgu ac asesu (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2018). Os bydd yn cael ei ystyried yn rhan o'r 1000 o oriau o ddysgu wrth ymarfer, rhaid i ddysgu efelychiadol gael ei asesu, ni all fod yn hwy na 40 awr (Imms et al 2018) a rhaid iddo ddigwydd gydag unigolion yn rôl pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol. |
| **Dysgwr** | Unigolyn sydd wedi cofrestru ar raglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru, pa bynnag lwybr mynediad i'r proffesiwn y mae'r dysgwr wedi cofrestru arni. Gall dysgwyr hefyd gael eu galw yn 'fyfyrwyr', neu o ran rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, 'prentisiaid'. |
| **GDPR – Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol** | Cyflwynwyd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn 2018 i roi un set o reolau diogelu data ar gyfer pob cwmni sy'n gweithredu yn yr Undeb Ewropeaidd, lle bynnag y mae'n gweithredu ohono. Mae rheolau cryfach ar ddiogelu data yn golygu bod gan bobl fwy o reolaeth ar eu data personol a bod busnesau yn manteisio o gael cae chwarae mwy gwastad. |
| **Goruchwyliaeth** | Perthynas a gweithgaredd proffesiynol sy'n sicrhau safonau da o ran ymarfer ac yn hwyluso datblygiad. Mae llawer o wahanol fathau o oruchwyliaeth; ond yn gyffredinol:<br>● Mae'n cynnwys perthynas broffesiynol.<br>● Mae'n broses.<br>● Mae'n weithredol a deinamig, gydag amcanion wedi eu diffinio.<br>● Mae'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau.<br>● Mae'n ymwneud â safonau, effeithiolrwydd a gallu.<br>● Mae'n ymwneud â chaffael a datblygu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad proffesiynol.<br>● Mae'n ymgorffori elfennau personol, proffesiynol a sefydliadol.<br>● Gall gynnwys efelychiad.<br>● Mae'n cynnwys ystyried yr ymarfer (COT 2015b). |
| **Goruchwyliaeth hyd braich** | Yn gynyddol mae amrywiaeth yn y math o leoliadau a gynigir ar gyfer dysgu wrth ymarfer. Efallai na fydd gan rai lleoliadau rolau therapi galwedigaethol yn bodoli ac felly efallai na fydd yn bosibl i'r dysgwr gael cefnogaeth gan therapydd galwedigaethol a gyflogir gan y darparwr dysgu wrth ymarfer, yn rôl addysgwr sy'n ymarfer. Mewn achosion o'r fath, rhaid i oruchwyliaeth ac asesu sgiliau penodol i therapi galwedigaethol yn ystod dysgu wrth ymarfer gael ei roi gan therapydd galwedigaethol tu allan i'r darparwr dysgu wrth ymarfer. Gelwir hyn yn oruchwyliaeth hyd braich ac yn aml |

| | |
|---|---|
| | bydd y therapydd galwedigaethol sy'n rhoi'r oruchwyliaeth hyd braich yn cael ei gyflogi gan y darparwr addysg fel addysgwr. Ond yn gynyddol mae modelau goruchwylio hyd braich yn cael eu harchwilio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr gael eu goruchwylio gan therapyddion galwedigaethol a gyflogir mewn lleoliadau eraill.<br><br>Mae cefnogaeth a chyngor yn cael eu rhoi trwy gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfathrebu o bell, dros y ffôn, galwadau fideo, e-bost, neu ddulliau eraill, gan ddibynnu ar ddewis y dysgwr. Argymhellir ymweld â'r dysgwr yn ei leoliad dysgu wrth ymarfer, yn arbennig ar gyfer lleoliadau lle mae rolau therapi galwedigaethol yn dal i ddod i'r amlwg |
| **Graddedigion** | Unigolion sydd wedi llwyddo i fodloni gofynion y rhaglen cyn cofrestru gan eu darparwr addysg ac wedi cael y dyfarniad cysylltiedig. |
| **HCPC – Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal** | Y corff rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig a sefydlwyd i ddiogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio amrywiaeth o broffesiynau iechyd a gofal, gan gynnwys therapi galwedigaethol. |
| **Mentor yn y gwaith** | Therapydd galwedigaethol profiadol, gyda chymwysterau priodol sy'n rhoi neu yn goruchwylio strategaeth ddysgu yn y gweithle, sy'n arwain at ddatblygu sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad proffesiynol. Dim ond yng nghyd-destun rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru y defnyddir y term hwn ac mae'n cyd-fynd yn glos â'r addysg benodol i broffesiwn a roddir gan y darparwr addysg. |
| **Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol** | Unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol neu y maent yn effeithio arno, gan gynnwys cleifion, gofalwyr, cleientiaid, teuluoedd neu gymunedau. Mae'r term hefyd yn cynnwys cydweithwyr a chymheiriaid y therapydd galwedigaethol neu'r dysgwr therapi galwedigaethol y mae eu gwybodaeth, sgiliau neu ymddygiad proffesiynol yn effeithio arnynt (Broughton a Harris 2019). |
| **Rhaglen brentisiaeth cyn cofrestru** | Llwybr mynediad gwahanol i'r proffesiwn therapi galwedigaethol, lle gall dysgwyr gael gradd baglor neu feistr llawn fel rhan o'u prentisiaeth. Darparwyr addysg fydd y cyrff dyfarnu o hyd ac felly mae ganddynt gyfrifoldeb i ddarparu addysg sy'n cyrraedd y *Safonau Dysgu a Datblygu ar gyfer Addysg Cyn Cofrestru*. Bydd y dosbarthiad amser ar gyfer dysgwr sydd wedi cofrestru ar raglen brentisiaeth cyn cofrestru yn cael ei rannu rhwng y dysgu a wneir yn y gweithle ('yn y gwaith') a'r dysgu sy'n digwydd mewn amgylchedd dysgu ffurfiol, sy'n debygol o fod yn rhaniad 80/20. Rhaglen brentisiaeth cyn cofrestru yw un sy'n cael ei chydnabod gan y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol fel *gradd integredig – lefel 6* (Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol 2018) ac sydd wedi ei chymeradwyo gan yr HCPC a'i hachredu gan RCOT. |

| | |
|---|---|
| **Rhaglen cyn cofrestru** | Rhaglen astudio therapi galwedigaethol, wedi ei chymeradwyo gan yr HCPC yn arwain at gymhwyster i ymgeisio am gael cofrestru fel therapydd galwedigaethol gyda'r HCPC. Pan fydd y rhaglen cyn cofrestru wedi ei hachredu gan RCOT, mae dysgwyr yn gymwys i ymuno â RCOT fel aelod fyfyriwr ac, ar ôl cymhwyso fel therapydd galwedigaethol, uwchraddio i aelodaeth broffesiynol. Mae'r term yn cynnwys yr holl lwybrau i'r proffesiwn, gan gynnwys llwybrau prentisiaeth cyn cofrestru. |
| **Rhaglen sylfaen** | Mae rhaglenni sylfaen sy'n gysylltiedig yn benodol â'r proffesiwn therapi galwedigaethol yn cynnig dyfarniadau a fwriadwyd i roi gwybodaeth sylfaenol am bwnc i baratoi dysgwr ar gyfer dilyn rhaglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru.<br><br>Mae dyfarniadau rhaglenni sylfaen yn ddyfarniadau nad ydynt yn benodol i therapi galwedigaethol ac nid ydynt yn cynnig unrhyw gydnabyddiaeth o addysg flaenorol ar gyfer rhaglen cyn cofrestru. |
| **Safonau ymarfer proffesiynol** | Y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r *Cod moeseg ac ymddygiad proffesiynol* (COT 2015). Bydd y *Cod moeseg ac ymddygiad proffesiynol* yn cael eu hadolygu yn fuan ar ôl i'r *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* gael eu cyhoeddi ac efallai y byddant dan deitl newydd.* |
| **Set o raglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru** | Casgliad o raglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru a gynigir gan ddarparwr addysg, gydag amrywiaeth o ddyfarniadau neu lwybrau yn arwain at gymhwyster i gofrestru gyda'r HCPC fel therapydd galwedigaethol. |
| **Tîm rhaglen cyn cofrestru** | Y staff a gyflogir gan y darparwr addysg i ddatblygu, cyflwyno a/neu werthuso'r rhaglen cyn cofrestru. Mae'r tîm rhaglen cyn cofrestru yn cynnwys y rhai sy'n addysgu'r rhaglen cyn cofrestru yn ogystal â'r staff gweinyddol a chefnogol sy'n ymwneud â hi. |
| **Tiwtor** | Y term a ddefnyddir i ddisgrifio rôl addysgwr wrth gefnogi datblygiad proffesiynol y dysgwr neu wrth roi cyngor neu fentora academaidd cyffredinol. Bydd dysgwyr yn cael Tiwtor personol trwy gydol eu hymrestriad. Rhaid i'r tiwtor fod yn aelod academaidd o dîm y rhaglen cyn cofrestru. Er nad oes raid i'r tiwtor fod yn therapydd galwedigaethol, rhaid i ddogfennau'r rhaglen ddisgrifio'r wybodaeth a roddir i ddysgwyr o ran sut i gysylltu ag aelod o'r tîm rhaglen cyn cofrestru sydd yn therapydd galwedigaethol, os bydd angen. Ar gyfer dysgwyr ar raglenni prentisiaeth cyn cofrestru, rhaid i'r Tiwtor fod yn allanol i'r sefydliad sy'n cyflogi. Gall tiwtoriaid hefyd gael eu galw yn 'gynghorwyr academaidd' neu 'diwtoriaid personol'. |

* Cyhoeddwyd y *Safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer, ymddygiad a moeseg* yn 2021 (RCOT 2021b), gan ddisodli'r *Cod moeseg a Safonau proffesional ar gyfer ymarfer therapi galwedigaethol.*

| | |
|---|---|
| **Tiwtor Derbyniadau** | Therapydd galwedigaethol a gyflogir gan y darparwr addysg sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am dderbyn ymgeiswyr addas ar y rhaglen cyn cofrestru. Rhaid i'r Tiwtor Derbyniadau fod yn rhan o gyfweld a/neu asesu ymgeiswyr. |
| **Ymarfer annibynnol** | Elfen sylfaenol o'r safonau medrusrwydd therapi galwedigaethol, dyma'r gallu i asesu sefyllfa broffesiynol ac ymdrin â hi mewn ffordd addas gyda'r wybodaeth a phrofiad perthnasol mewn therapi galwedigaethol. Mae hefyd yn cynnwys y gallu i wneud penderfyniadau wedi eu rhesymu, i fedru cyfiawnhau'r penderfyniadau hyn a derbyn cyfrifoldeb personol am ei holl weithredoedd (HCPC 2013). |
| **Ymchwil** | Astudiaeth fanwl ar bwnc er mwyn darganfod gwybodaeth newydd neu gael dealltwriaeth newydd. |
| **Ymgeisydd** | Dysgwr posibl sy'n ymgeisio am gael cofrestru ar raglen cyn cofrestru therapi galwedigaethol. |
| **Ysgolheictod** | Datblygu eich gwybodaeth eich hun. |

# Safonau Dysgu a Datblygu ar gyfer Addysg Cyn Cofrestru

| Maes 1: Lefel y dyfarniad ar gyfer mynediad i'r proffesiwn | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 1.1 | | Y llwybr mynediad cyntaf i Gofrestr yr HCPC a'r proffesiwn therapi galwedigaethol yw gradd baglor gydag anrhydedd | |
| Meini prawf | 1.1.1 | Graddedigion sy'n gymwys i ymgeisio am gael eu cofrestru fel therapydd galwedigaethol gyda'r HCPC ac ar gyfer aelodaeth broffesiynol o'r RCOT yw'r rhai sydd wedi cwblhau rhaglen cyn cofrestru ar un o'r lefelau dyfarnu isod:<br>• gradd baglor gydag anrhydedd<br>• diploma ôl-radd<br>• gradd meistr<br>• doethuriaeth. | Dogfennau'r rhaglen yn nodi'r dyfarniad a roddir i raddedigion y rhaglen cyn cofrestru yn un o'r canlynol:<br>• gradd baglor gydag anrhydedd<br>• diploma ôl-radd<br>• gradd meistr. |

| Maes 2 – Derbyniadau i raglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 2.1 | | Rhaid i'r broses dderbyn roi'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth i'r ymgeisydd a'r darparwr addysg wneud penderfyniad am gynnig lle ar raglen cyn cofrestru. | |
| Meini prawf | 2.1.1 | Ymgeiswyr yn cael digon o wybodaeth am rôl, cyfrifoldebau, ymddygiad proffesiynol a disgwyliadau bod yn therapydd galwedigaethol a defnyddio'r wybodaeth hon i wneud dewis ar sail gwybodaeth am ymrestru ar y rhaglen cyn cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys gwybodaeth a roddwyd i ymgeiswyr, sy'n disgrifio'r rôl, cyfrifoldebau, ymddygiad proffesiynol a'r disgwyliadau o therapyddion galwedigaethol. Y wybodaeth a roddir i ymgeiswyr hefyd yn ymdrin â gofynion dysgu ac asesu'r rhaglen cyn cofrestru.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys y manylion a roddir i ymgeiswyr am ddisgwyliadau dysgu wrth ymarfer, fel yr amrywiaeth o leoliadau y gallant ddysgu ynddynt a |
| | 2.1.2 | Yr ymgeiswyr â digon o wybodaeth am y dysgu academaidd, dysgu wrth ymarfer a'r gofynion asesu i fedru gwneud dewis ar sail gwybodaeth am ymrestru ar y rhaglen cyn cofrestru. | |

| Maes 2 – Derbyniadau i raglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 2.2 | | Rhaid i'r meini prawf dethol a mynediad gynnwys safonau mynediad academaidd a phroffesiynol priodol. | |
| Meini prawf | | | chyrhaeddiad daearyddol y darparwyr dysgu wrth ymarfer posibl. |
| | 2.2.1 | Safonau ymarfer proffesiynol a disgwyliadau ymddygiad moesegol a phroffesiynol y proffesiwn i gael eu hadlewyrchu yn y safonau mynediad. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae safonau proffesiynol ymarfer a disgwyliadau moesegol ac ymddygiad proffesiynol y proffesiwn yn cael eu hadlewyrchu yn y safonau mynediad. Rhaid i ddarparwyr addysg adolygu safonau academaidd a phroffesiynol yn gyson a rhoi'r rhesymeg am eu gofynion mynediad unigol.<br><br>Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, dogfennau'r rhaglen yn diffinio'r berthynas rhwng y cyflogwr a'r darparwr addysg wrth asesu ceisiadau. Dogfennau'r rhaglen yn<br><br>ymwneud â derbyn yn disgrifio sut y mae gweithwyr presennol a gweithwyr newydd yn cael eu hasesu i bennu a ydynt yn bodloni anghenion, disgwyliadau a meini prawf y cyflogwr, y darparwr addysg a'r proffesiwn.<br><br>Pan gynigir rhaglenni sylfaen, dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r llwybr i symud ymlaen o'r rhaglen sylfaen trwy'r rhaglen cyn cofrestru ac yn dangos cysondeb â'r deilliannau dysgu.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â derbyniadau yn disgrifio sut y mae'r broses ymgeisio safonol yn berthnasol i ymgeiswyr sydd wedi cwblhau rhaglen sylfaen generig. |
| | 2.2.2 | Y gweithwyr presennol a'r gweithwyr newydd eu recriwtio sy'n cael cynnig lle ar raglen prentisiaeth cyn cofrestru yn bodloni anghenion, disgwyliadau a meini prawf y cyflogwr, y darparwr addysg a'r proffesiwn. | |
| | 2.2.3 | Rhaid i raglen sylfaen a ddyluniwyd fel llwybr mynediad i raglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru fod yn rhaglen astudio resymegol ar ei phen ei hun a dangos yn glir y berthynas gyda'r deilliannau dysgu yn y rhaglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru. | |
| | 2.2.4 | Pan ddefnyddir rhaglen sylfaen generig fel llwybr mynediad i raglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru, rhaid i'r ymgeisydd fynd trwy'r broses dderbyn safonol a bydd yn ddarostyngedig i'r gofynion cydnabod dysg flaenorol ar gyfer y rhaglen honno. | |

| Maes 2 – Derbyniadau i raglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 2.3 | | Rhaid i'r broses dderbyn sicrhau bod gan ymgeiswyr feistrolaeth dda o'r Saesneg. | |
| Meini prawf | 2.3.1 | Ymgeiswyr yn cael gwybodaeth am y sgiliau Saesneg sy'n ofynnol gan ddysgwyr yn y rhaglen cyn cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn gysylltiedig â derbyniadau yn disgrifio sut y mae'r darparwr addysg yn sicrhau bod gan ddysgwyr ddigon o wybodaeth am y lefel ddisgwyliedig o sgiliau Saesneg ysgrifenedig ac ar lafar wrth gael mynediad ar y rhaglen cyn cofrestru. Gwybodaeth i ymgeiswyr am y gefnogaeth Saesneg cyn y sesiynau sydd ar gael yn cael ei ddisgrifio yn nogfennau'r rhaglen |
| Safon 2.4 | | Rhaid i'r broses dderbyn asesu addasrwydd ymgeiswyr, gan gynnwys gwiriadau collfarnau troseddol. | |
| Meini prawf | 2.4.1 | Ymgeiswyr sy'n cael cynnig lle ar y rhaglen cyn cofrestru yn meddu'r nodweddion personol a phroffesiynol sy'n addas ar gyfer ymarfer fel therapydd galwedigaethol. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â derbyniadau yn disgrifio sut y mae'r darparwr addysg yn asesu bod yr ymgeiswyr yn addas ar gyfer y proffesiwn therapi galwedigaethol, gyda'r Tiwtor Derbyniadau therapi galwedigaethol yn dal y cyfrifoldeb cyffredinol. Rhaid i ymgeiswyr sydd wedi ymrestru o'r blaen ar raglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru neu unrhyw raglen addysg iechyd proffesiynol arall gyflwyno datganiad yn cadarnhau na fu unrhyw bryderon am addasrwydd i ymarfer yn y gorffennol.<br><br>Y broses ar gyfer gofyn am wiriadau cofnodion troseddol ar yr holl ymgeiswyr a'u cadarnhau yn cael ei disgrifio yn nogfennau'r rhaglen. |
| Safon 2.5 | | Rhaid i'r broses dderbyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gwybod am unrhyw ofynion iechyd ac yn cadw atynt. | |
| | 2.5.1 | Ymgeiswyr sy'n cael cynnig lle ar y rhaglen cyn cofrestru yn cael | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â derbyniadau yn disgrifio'r gofynion |

| Maes 2 – Derbyniadau i raglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| | | gwybod am ofynion iechyd y rhaglen cyn cofrestru. | iechyd y mae'n rhaid i ddysgwyr eu bodloni, gan gynnwys cliriad iechyd galwedigaethol ac imiwneiddiadau. |
| Safon 2.6 | | Rhaid cael proses briodol ac effeithiol i asesu dysg a phrofiad blaenorol yr ymgeisydd. | |
| Meini prawf | 2.6.1 | Rhaid i gydnabyddiaeth o ddysg flaenorol gael ei gynnig i'r holl ddysgwyr a rhaid iddo fod yn deg, tryloyw a chynnwys barn academaidd resymol. | Rhaid i ddogfennau'r rhaglen yn gysylltiedig â chydnabod dysg flaenorol fod yn glir a rhesymol a hwyluso i bob cais gael ei ystyried yn unigol gan y Tiwtor Derbyniadau therapi galwedigaethol.<br><br>Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, rhaid i'r asesu i gydnabod dysg flaenorol gael ei gynnal trwy broses gydweithredol rhwng y darparwr addysg a'r cyflogwr.<br><br>Rhaid i ddogfennau rhaglen yn ymwneud â chydnabod dysg flaenorol gynnwys y trefniadau a wnaed gan y darparwr addysg i gefnogi ymgeiswyr trwy'r broses hon.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn diffinio'r uchafswm o'r rhaglen cyn cofrestru y gellir ei ystyried trwy gydnabod dysg flaenorol. Rhaid i'r uchafswm fod yn llai neu yn gyfartal â thraean o gyfanswm y rhaglen cyn cofrestru, a gall gynnwys dysgu wrth ymarfer.<br><br>Rhaid i'r oriau o ddysgu wrth ymarfer y gellir eu hystyried i gydnabod dysg blaenorol:<br>• beidio â bod yn hwy na'r oriau o ddysgu wrth ymarfer a drefnwyd ar gyfer y flwyddyn gyntaf o raglen cyn cofrestru'r darparwr addysg sy'n eu derbyn. |
| | 2.6.2 | Rhaid i ymgeiswyr gael eu cefnogi gan y darparwr addysg trwy'r broses ymgeisio i gydnabod dysg flaenorol. | |
| | 2.6.3 | Gall uchafswm o draean o gyfanswm y rhaglen cyn cofrestru gael eu hystyried ar sail cydnabod dysg flaenorol. | |

| Maes 2 – Derbyniadau i raglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | • fod wedi cael eu hasesu;<br>• fod wedi cael eu cwblhau yn llwyddiannus.<br><br>Y broses o asesu llwyddiant wrth gyrraedd deilliannau dysgu o'r dysgu wrth ymarfer cydnabyddedig yn cael ei disgrifio.<br><br>Mewn amgylchiadau pan fydd dysgwr yn trosglwyddo rhwng rhaglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru a gyflwynir gan ddarparwyr addysg gwahanol, gall mwy na thraean gael ei ystyried i gydnabod dysgu blaenorol. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r dysgwr:<br>• fodloni gofynion derbyn y darparwr addysg sy'n derbyn;<br>• ddangos bod y strategaeth addysgu, ddysgu ac asesu ar y rhaglen cyn cofrestru sy'n rhyddhau yn gymesur â'r cam o'r rhaglen cyn cofrestru y maent yn ceisio cael mynediad arno;<br>• sicrhau bod y darparwr addysg sy'n rhyddhau yn rhoi manylion am unrhyw broblemau o ran camymddygiad proffesiynol neu addasrwydd ar gyfer y proffesiwn, er mwyn i'r darparwr addysg sy'n derbyn wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.<br><br>Dogfennau'r rhaglen sy'n ymwneud â chydnabod dysg flaenorol yn amlinellu cyfrifoldebau dysgwyr, yn ogystal â'r darparwyr addysg sy'n derbyn ac yn rhyddhau, mewn amgylchiadau pan fydd dysgwyr yn trosglwyddo rhwng rhaglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru. |

| Maes 2 – Derbyniadau i raglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 2.7 | | Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth yng nghyswllt ymgeiswyr a'u bod yn cael eu gweithredu a'u monitro. | |
| Meini prawf | 2.7.1 | Tuedd anymwybodol bosibl yn y broses ddethol ac wrth asesu ymgeiswyr yn cael ei liniaru gan hyfforddiant a chefnogaeth a roddir gan y darparwr addysg i'r holl staff sy'n ymwneud â derbyniadau. | Datblygu proffesiynol parhaus cychwynnol a pharhaus a dysgu gydol oes i'r holl staff sy'n ymwneud â derbyniadau yn cynnwys y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol i roi gwerth ar amrywiaeth a gweithio heb wahaniaethu.<br><br>Dogfennau'r rhaglen sy'n ymwneud â chyfranogiad a chwblhau'r rhaglen cyn cofrestru yn disgrifio yn glir sut y mae unigolion sy'n cael eu diffinio gan unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelir – oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol (Prydain Fawr. Senedd 2010) – yn cael eu cefnogi trwy eu hymwneud â'r darparwr addysg.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â derbyniadau yn disgrifio sut y datblygwyd polisïau a gweithdrefnau derbyn gyda chyfraniad dysgwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol. Hyblygrwydd y darparwr addysg o ran cefnogi dysgwyr ag anableddau neu anghenion dysgu penodol yn cael ei ddisgrifio. |
| | 2.7.2 | Os bydd ymgeisydd yn dewis datgelu anabledd neu angen penodol o ran dysgu yn ystod y broses ymgeisio, y darparwr addysg yn ymateb yn briodol ac yn cynnig addasiadau rhesymol os yw'r ymgeisydd yn gymwys i'w ymrestru fel arall. | |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 3.1 | | Rhaid i'r rhaglen cyn cofrestru fod yn gynaliadwy ac yn addas i'r diben. | |
| Meini prawf | 3.1.1 | Dysgwyr yn cael cynnig rhaglen cyn cofrestru sydd ag ymroddiad gan y darparwr addysg i gael digon o adnoddau trwy gydol y cyfnod achrededig. | Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys yr ymrwymiad gan uwch reolwyr y darparwr addysg i roi adnoddau digonol i'r rhaglen cyn cofrestru, i sicrhau bod safon uchel i'r addysg a'r cyfleoedd dysgu trwy gydol y cyfnod achrededig.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys cadarnhad o gymeradwyaeth mewn cymhariaeth â'r *Safonau addysg a hyfforddiant* (HCPC 2017) a thystiolaeth bod y cwricwlwm yn cyd-fynd â'r safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer a disgwyliadau moesegol ac ymddygiad proffesiynol y proffesiwn. |
| | 3.1.2 | Dysgwyr yn addas ar gyfer y proffesiwn therapi galwedigaethol wrth raddio. | |
| Safon 3.2 | | Rhaid i'r rhaglen cyn cofrestru gael ei rheoli yn effeithiol. | |
| Meini prawf | 3.2.1 | Dysgwyr yn cael rhaglen cyn cofrestru sydd ag adnoddau, staff a chefnogaeth addas a digonol i fodloni'r deilliannau dysgu ar gyfer lefel academaidd ofynnol y cynnwys o fewn y rhaglen cyn-cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau'r darparwr addysg a'r dysgwr. Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn cynnwys model cynllunio baich gwaith y darparwr addysg sy'n dynodi'r gweithgareddau addysgu, ymchwil, datblygiad proffesiynol parhaus, gweinyddol ac eraill y mae addysgwyr ar gontract i'w cyflawni. Y dull o reoli staff, gan gynnwys prinder staff, swyddi parhaol a dros dro ac addysgwyr sy'n ymweld hefyd yn cael eu disgrifio.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â rheoli adnoddau yn dangos sut y bydd yr adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys adnoddau llyfrgell, dysgu ar-lein, deunyddiau addysgu, offer arbenigol a chyllid yn gallu bodloni |
| | 3.2.2 | Dysgwyr yn dilyn rhaglen prentisiaeth cyn cofrestru yn cael cynnig yr un safon o addysg a chyfleoedd cyfartal i ddysgu â'r rhai sydd wedi ymrestru ar raglenni cyn cofrestru eraill. | |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | 3.2.3 | Rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau'r darparwr addysg a'r dysgwr (a'r cyflogwr, yn achos rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru) yn cael eu cynnal. | anghenion dysgwyr ac addysgwyr. Dogfennau'r rhaglen hefyd yn cyfiawnhau'r gofod addysgu, lleoliadau ar gyfer gweithgareddau dysgu arbenigol, gofod storio sydd ar gael ac argaeledd gofod swyddfa i addysgwyr, staff gweinyddol a chefnogi.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn disgrifio sut y bydd addysgwyr ymarfer yn cael eu hwyluso i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gefnogi dysgwyr yn ystod y dysgu wrth ymarfer.<br><br>Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, dogfennau'r rhaglen yn cynnwys templed contract yn disgrifio:<br>• Cyfrifoldebau sefydliadol y cyflogwr, darparwr addysg a'r darparwr dysgu wrth ymarfer.<br>• Rolau a chyfrifoldebau'r dysgwr, y mentor yn y gwaith, yr addysgwr a'r addysgwr ymarfer.<br>• Statws dysgwr mewn cymhariaeth â gweithiwr, a'r cyd-destunau pan fydd y gwahaniaeth hwn yn bwysig.<br>• Yr ymrwymiad gan gyflogwyr i fodloni'r un disgwyliadau â darparwyr addysg o ran adnoddau digonol i sicrhau bod safon uchel yn y cyfleoedd addysg a dysgu a gynigir.<br>• Pryd a sut y bydd polisïau cyflogwyr a darparwyr addysg yn gweithredu a pha un fydd yn cael blaenoriaeth o ystyried yr amgylchiad.<br><br>Dylai'r contract adlewyrchu cytundeb rhwng y dysgwr, y |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | cyflogwr a'r darparwr addysg. Efallai y bydd angen contract ychwanegol i ddangos y trefniadau ar gyfer yr asesiad terfynol.<br><br>Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, mae dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae hawliau cyflogai (er enghraifft gwyliau |
| Safon 3.3 | | Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod gan yr unigolyn sydd â'r cyfrifoldeb proffesiynol cyffredinol am y rhaglen cyn cofrestru y cymwysterau a'r profiad priodol. | |
| Meini prawf | 3.3.1 | Y set benodol o raglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru yn cael ei arwain gan therapydd galwedigaethol yn rôl yr Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn disgrifio rôl yr Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol ac yn dangos sut y mae gan yr unigolyn yn y rôl hon y cymwysterau a'r profiad priodol. Mae RCOT yn cadw'r hawl i fynegi gwrthwynebiad i unrhyw benodiad yn y rôl hon.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn disgrifio rôl Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol ac yn dangos sut y mae gan yr unigolyn yn y rôl hon y cymwysterau a'r profiad priodol. Y gefnogaeth gychwynnol a pharhaus (mentora er enghraifft) a gynigir i gynorthwyo proses gynefino yr Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol yn cael eu disgrifio. |
| | 3.3.2 | Pob rhaglen cyn cofrestru a gynigir gan y darparwr addysg yn cael ei harwain gan therapydd galwedigaethol yn rôl yr Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol. | |
| Safon 3.4 | | Rhaid i'r rhaglen cyn cofrestru gael systemau monitro a gwerthuso effeithiol yn eu lle. | |
| Meini prawf | 3.4.1 | Prosesau monitro ansawdd a'i wella yn dangos trylwyredd a dilysrwydd, i alluogi gwelliant parhaus ar y rhaglen cyn cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â monitro ansawdd a gwella ansawdd yn disgrifio sut y mae'r rhaglen cyn cofrestru yn cael ei hadolygu yn barhaus a'i hadolygu bob 5 mlynedd o leiaf. Gall cais i |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | 3.4.2 | Prosesau monitro a gwella ansawdd yn cyd-fynd â gofynion Proses Achredu RCOT. | RCOT am adolygiad cynharach neu estyniad i'r cylch 5 mlynedd arferol gael ei ystyried.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â monitro a gwella ansawdd yn disgrifio'r broses ar gyfer casglu a dadansoddi adborth gan addysgwyr, addysgwyr ymarfer, dysgwyr, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, arholwyr allanol a chyflogwyr presennol a phosibl graddedigion y rhaglen cyn cofrestru. Dylai adborth hefyd gynnwys gwybodaeth am berfformiad graddedigion y rhaglen cyn cofrestru. Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â monitro a gwella ansawdd yn disgrifio sut y mae adborth a gesglir yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail ar gyfer datblygiad parhaus y rhaglen cyn cofrestru.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â monitro a gwella ansawdd yn disgrifio'r broses ar gyfer cael gwelliant parhaus ar y cyfleusterau a'r adnoddau a sut y mae hyn yn cyd-fynd â'r adolygiadau cwricwlwm a gynllunnir. Mae hefyd yn disgrifio sut y mae adolygiadau o ddulliau addysgiadol yn brydlon a thrylwyr.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â monitro a gwella ansawdd yn disgrifio'r broses ar gyfer paratoi adroddiadau sy'n ofynnol gan Broses Achredu RCOT, i'w achredu yn barhaus. Y broses ar gyfer hysbysu RCOT am newidiadau mawr neu fân i'r rhaglen cyn |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | cofrestru yn cael ei disgrifio yn nogfennau'r rhaglen.<br><br>Pan na fydd recriwtio i raglen cyn cofrestru wedi ei hachredu yn y cyfnod disgwyliedig, bydd achrediad RCOT yn parhau yn ei le am 2 flynedd. |
| Safon 3.5 | | Rhaid cael cydweitho rheolaidd ac effeithlon rhwng y darparydd addysg a darparwyr dysgu wrth ymarfer. | |
| Meini prawf | 3.5.1 | Yr holl staff sy'n ymwneud â dysgu academaidd ac mewn gwaith yn cydweithio i sicrhau profiadau buddiol ac ansawdd da ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig. | Dogfennau'r rhaglen yn amlinellu dull y darparwr addysg o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys sut y mae perthnasau gydag amrywiaeth o ddarparwyr dysgu wrth ymarfer yn cael eu sefydlu a'u meithrin.<br><br>Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, dogfennau'r rhaglen yn cynnwys templed contract yn disgrifio:<br>• Cyfrifoldebau sefydliadol y cyflogwr, darparwr addysg a'r darparwr dysgu wrth ymarfer.<br>• Rolau a chyfrifoldebau'r dysgwr, y mentor yn y gwaith, yr addysgwr a'r addysgwr ymarferol.<br>• Statws dysgwr mewn cymhariaeth â gweithiwr, a'r cyd-destunau pan fydd y gwahaniaeth hwn yn bwysig.<br>• Yr ymrwymiad gan gyflogwyr i fodloni'r un disgwyliadau â darparwyr addysg o ran adnoddau digonol i sicrhau bod safon uchel yn y cyfleoedd addysg a dysgu a gynigir.<br>• Pryd a sut y bydd polisïau cyflogwyr a darparwyr addysg yn gweithredu a pha un fydd yn cael |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | blaenoriaeth o ystyried yr amgylchiad.<br><br>Dylai'r contract adlewyrchu cytundeb rhwng y dysgwr, y cyflogwr a'r darparwr addysg. Efallai y bydd angen contract ychwanegol i ddangos y trefniadau ar gyfer yr asesiad terfynol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn disgrifio sut y bydd addysgwyr ac addysgwyr ymarfer yn cael eu hwyluso i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gefnogi dysgwyr a ymrestrodd ar raglenni cyn cofrestru. |
| 3.6 | | Rhaid cael proses effeithiol yn ei lle i sicrhau argaeledd a gallu dysgu wrth ymarfer i'r holl ddysgwyr. | |
| Meini prawf | 3.6.1 | Mae digon o ddewis o ddarparwyr dysgu wrth ymarfer yn rhwydwaith y darparwr addysg i sicrhau bod gan ddysgwyr gyfleoedd dysgu wrth ymarfer ar draws ehangder llawn y proffesiwn. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd ar draws ystod eang o gyfleoedd dysgu wrth ymarfer.<br><br>Dysgwyr yn cael profi amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu wrth ymarfer, fel:<br>• Lleoliadau cyhoeddus, annibynnol, preifat a thrydydd sector.<br>• Lleoliadau trefol, gwledig, lleol neu ryngwladol.<br>• Lleoliadau heb fod ar y rheng flaen, er mwyn cael profi rolau strategol ac arwain a/neu mewn adrannau ymchwil neu sefydliadau.<br>• Sefydliadau i bobl nad ydynt yn cael digon o waith, heb rym, wedi eu hamddifadu neu eu hallgau yn gymdeithasol. |
| | 3.6.2 | Digon o adnoddau a chefnogaeth i ddysgu wrth ymarfer. | |
| | 3.6.3 | Mae perthynas waith effeithiol rhwng y darparwr addysg a'r darparwyr dysgu wrth ymarfer i sicrhau bod dysgwyr yn bodloni'r gofynion o ran dysgu wrth ymarfer. | |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | • Sefydliadau sy'n gofalu am bobl o wahanol oedrannau, o gyd-destunau cymdeithasol-economaidd a diwylliannol gwahanol, sydd ag anghenion galwedigaethol a gododd yn ddiweddar a rhai tymor hir a'r rhai sydd â gwahanol allu corfforol a seico-gymdeithasol.<br>• Lleoliadau yn defnyddio dulliau unigol, grŵp, cymuned a phoblogaeth.<br>• Lleoliadau lle nad oes therapyddion galwedigaethol yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r strategaeth ar gyfer rheoli a threfnu elfennau dysgu wrth ymarfer o'r rhaglen cyn cofrestru. Dogfennau'r rhaglen yn amlinellu dull y darparwr addysg o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys sut y mae perthnasau gydag amrywiaeth eang o ddarparwyr dysgu wrth ymarfer yn cael eu sefydlu a'u meithrin.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn disgrifio'r rôl yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso dysgu wrth ymarfer a'r gofyn i'r unigolyn fod yn therapydd galwedigaethol. Dogfennau'r rhaglen yn amlinellu arbenigedd, cymwysterau a statws cofrestru HCPC presennol yr unigolyn cyfrifol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae nifer addas o therapyddion galwedigaethol yn cydlynu dysgu seiliedig ac ymarfer ac rolau addysgwyr ymarfer. |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 3.7 | | Rhaid i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol fod yn rhan o'r rhaglen cyn cofrestru. | |
| Meini prawf | 3.7.1 | Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol yn ymwneud â'r prosesau trafod a llunio penderfyniadau yn ymwneud â meini prawf mynediad, dylunio'r cwricwlwm, cynnwys a dysgu wrth ymarfer ar draws y broses ddatblygu, weithredu ac adolygu. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â monitro a gwella ansawdd yn diffinio rolau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol ym mhrosesau trafod a llunio penderfyniadau'r rhaglen cyn cofrestru. Rhaid i'r dulliau o recriwtio pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol i fod yn sail i'r rhaglen cyn cofrestru fod yn briodol ac wedi eu diffinio yn glir. Y gefnogaeth a roddir i'r darparwr addysg gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol i ymgysylltu yn ystyrlon yn y prosesau trafod a llunio penderfyniadau yn cael ei disgrifio. |
| Safon 3.8 | | Rhaid i ddysgwyr fod yn rhan o'r rhaglen cyn cofrestru. | |
| Meini prawf | 3.8.1 | Cynrychiolwyr y dysgwyr yn ymwneud â'r prosesau trafod a llunio penderfyniadau yn ymwneud â meini prawf mynediad, dylunio'r cwricwlwm, cynnwys a dysgu wrth ymarfer ar draws y prosesau datblygu, gweithredu ac adolygu. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â monitro a gwella ansawdd yn diffinio rolau cynrychiolwyr y dysgwyr a graddedigion ym mhrosesau trafod a llunio penderfyniadau'r rhaglen cyn cofrestru, wedi ei arwain gan y peirianweithiau rhoi adborth parhaus a gynigir trwy werthusiadau cyson. |
| | 3.8.2 | Graddedigion yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y prosesau trafod a llunio penderfyniadau yn ymwneud â meini prawf mynediad, dylunio'r cwricwlwm, cynnwys a dysgu wrth ymarfer ar draws y prosesau datblygu, gweithredu ac adolygu. | |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 3.9 | | Rhaid cael nifer ddigonol o staff gyda'r cymwysterau a'r profiad priodol yn eu lle i ddarparu rhaglen cyn cofrestru effeithiol. | |
| Meini prawf | 3.9.1 | Y dysgwyr yn cael eu cefnogi yn ddigonol gan addysgwyr, addysgwyr ymarfer, staff gweinyddol a chefnogi gyda chymwysterau a phrofiad addas i gynnal holl elfennau'r rhaglen cyn cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn amlinellu'r dull ar gyfer sicrhau bod addysgwyr, addysgwr ymarfer, staff gweinyddol a chefnogi gyda chymwysterau addas yn ymwneud â darparu pob elfen o'r rhaglen cyn cofrestru.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn cynnwys model cynllunio baich gwaith y darparwr addysg sy'n dynodi'r gweithgareddau addysgu, ymchwil, datblygiad proffesiynol parhaus, gweinyddol ac eraill y mae addysgwyr ar gontract i'w cyflawni. Y dull o reoli staff, gan gynnwys prinder staff, swyddi parhaol a dros dro ac addysgwyr sy'n ymweld hefyd yn cael ei ddisgrifio.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn dangos y gymhareb addysgwyr i ddysgwyr yn un addysgwr cyfatebol i lawn amser i bob 15–20 o ddysgwyr cyfatebol. Wrth gyfrifo'r cyfatebol i amser llawn i addysgwyr, dim ond amser a dreulir yn addysgu yn uniongyrchol neu yn cefnogi'r rhaglen cyn cofrestru ddylai gael ei gynnwys a rhaid i fwyafrif yr addysgwyr fod yn therapyddion galwedigaethol. Pan fydd cynnydd yn y nifer o ddysgwyr neu ostyngiad sylweddol yn y nifer o addysgwyr yn digwydd, neu y rhagwelir hynny, bydd adroddiad yn cael ei roi i RCOT fel newid mawr a bydd strategaeth glir ar gyfer datblygu neu gefnogi tîm y rhaglen cyn cofrestru a'r adnoddau cysylltiedig yn cael eu rhoi. |
| | 3.9.2 | Y nifer o ddysgwyr yn gymesur i'r nifer o addysgwyr. | |
| | 3.9.3 | Cefndir proffesiynol a phrofiad yr addysgwyr a'r addysgwyr ymarfer yn cyd-fynd ag athroniaeth a diben y rhaglen cyn cofrestru. | |
| | 3.9.4 | Addysgwyr yn dangos ymgysylltu gweithredol ag ysgolheictod a/neu ymchwil sy'n dylanwadu yn uniongyrchol ar y rhaglen cyn cofrestru a'r proffesiwn. | |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn disgrifio:<br>• Sut y mae gofyn i addysgwyr fod â chymwysterau ar lefel uwch, neu gyfatebol i'r un y maent yn ei addysgu ac yn gallu dangos ansawdd a bod yn gyfredol yn y maes y maent yn ei addysgu.<br>• Cymwysterau ffurfiol yr holl addysgwyr a thystiolaeth o'u harbenigedd yn y meysydd y maent yn eu haddysgu.<br>• Rolau a chyfrifoldebau'r holl addysgwyr.<br>• Y model cynllunio baich gwaith yn ei le yn amlinellu sut y mae'r tîm cyn cofrestru yn dosbarthu eu cyfraniad at y rhaglen cyn cofrestru ar draws y swyddogaethau addysgu, ymchwil, datblygiad proffesiynol parhaus, gweinyddol ac eraill.<br>• Unrhyw raglenni therapi galwedigaethol eraill yn y set a gynigir a sut y mae'r addysgwyr wedi eu dosbarthu ar draws yr holl raglenni, gan gadw'r gymhareb addysgwr i ddysgwr.<br>• Cefndir proffesiynol a phrofiad yr addysgwyr, a phan fydd yn bosibl, yr addysgwyr ymarfer a sut mae eu profiad yn cyd-fynd ag athroniaeth a diben y rhaglen cyn cofrestru.<br>• Sut y mae'r ysgolheictod a'r ymchwil sy'n cael eu dilyn gan yr addysgwyr yn cyfrannu at y rhaglen cyn cofrestru a'r proffesiwn.<br><br>Ar gyfer astudiaethau lefel doethuriaeth dylai rhaglenni cyn-cofrestru:<br>• Rhoi tystiolaeth y caiff addysgwyr heb y cymhwyster gofynnol eu |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | hymrestru fel dysgwyr doethuriaeth ac y byddant yn gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol, a bod ganddynt y cyfuniad sgiliau perthnasol ar gyfer addysgu ar lefelau doethuriaeth lle'n briodol ac yn unol â rheoliadau'r darparydd addysg |
| Safon 3.10 | | Rhaid i feysydd pynciol gael eu cyflwyno gan addysgwyr â gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd perthnasol. | |
| Meini prawf | 3.10.1 | Elfennau o'r cwricwlwm dan y Piler Ymarfer Proffesiynol yn y Fframwaith Datblygu Gyrfa (RCOT 2017b)* a'r holl ddysgu wrth ymarfer yn cael eu goruchwylio neu gefnogi gan therapyddion galwedigaethol gydag arbenigedd a chymwysterau addas. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn amlinellu arbenigedd, cymwysterau a statws cofrestru'r HCPC yr holl addysgwyr sy'n dysgu'r elfennau o'r cwricwlwm dan y Piler Ymarfer Proffesiynol yn y Fframwaith Datblygu Gyrfa (RCOT 2017b). |
| | 3.10.2 | Elfennau o'r cwricwlwm dan y Piler Hwyluso Dysgu, Arweinyddiaeth a Thystiolaeth, Ymchwil a Datblygu yn y Fframwaith Datblygu Gyrfa (RCOT 2017b) yn cael eu goruchwylio neu gefnogi gan therapyddion galwedigaethol gydag arbenigedd a chymwysterau addas. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn amlinellu arbenigedd a chymwysterau'r holl addysgwyr sy'n addysgu elfennau o'r cwricwlwm dan y Piler Hwyluso Dysgu, Arweinyddiaeth a'r pileri Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu yn y Fframwaith Datblygu Gyrfa (RCOT 2017b). |
| | 3.10.3 | Yr addysgwyr a'r addysgwyr ymarfer yn defnyddio eu gwybodaeth am gyd-destunau lleol o ran ymarfer i gefnogi dysgwyr. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn amlinellu'r disgwyliadau o ran arbenigedd, cymwysterau a statws cofrestru HCPC presennol yr addysgwyr ymarfer. Ar gyfer addysg sy'n cael ei gynnal y tu allan i'r Deyrnas Unedig, efallai na fydd statws cofrestru â'r HCPC yn berthnasol; ond mae'r cyfatebol yn ofynnol. |
| | 3.10.4 | Yr addysgwyr a'r addysgwyr ymarfer yn defnyddio eu gwybodaeth am theorïau ac ymarfer byd-eang mewn therapi galwedigaethol, iechyd, anabledd, cymdeithasol ac addysgol i gefnogi dysgwyr. | |

* Lansiwyd yr ailargraffiad o'r Fframwaith Datblygu Gyrfa yn 2021 (RCOT 2021a), gan ddisodli'r argraffiad cyntaf (RCOT 2017b).

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae addysgwyr a'r addysgwyr ymarfer yn defnyddio eu gwybodaeth am gyd-destunau lleol o ran ymarfer fel sail i'w haddysgu. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o swyddi, strwythurau, credoau ac arferion diwylliannol, anghenion iechyd a chyfleoedd galwedigaethol yn lleol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r addysgwyr a'r addysgwyr ymarfer yn defnyddio eu gwybodaeth am theorïau ac ymarfer byd-eang mewn therapi galwedigaethol, iechyd, anabledd, cymdeithasol ac addysgol yn sail i'w haddysgu. Mae'r dulliau o gryfhau'r wybodaeth hon yn cynnwys ymwneud ag addysgwyr sy'n ymweld a'r llenyddiaeth broffesiynol (cenedlaethol a rhyngwladol), mynychu cynadleddau rhyngwladol a rhwydweithio proffesiynol tu hwnt i'r cyd-destun lleol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn amlinellu dull y darparwr addysg o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydlu a chynnal perthynas waith dda gyda sefydliadau iechyd, gofal, anabledd, addysgol a deddfwriaethol sy'n dylanwadu ar arfer ac addysg therapi galwedigaethol. |
| Safon 3.11 | | Rhaid cael strategaeth effeithiol yn ei lle i sicrhau datblygiad proffesiynol ac academaidd parhaus yr addysgwyr, sy'n addas i'w rolau yn y rhaglen cyn cofrestru. | |
| | 3.11.1 | Addysgwyr yn cael eu cefnogi i ymwneud ag addysgu, ysgolheictod a/neu ymchwil mewn ffordd sy'n | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn cynnwys model cynllunio baich gwaith y darparwr addysg |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | cydnabod y swyddogaethau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r rôl ac yn ystyried hynny. | sy'n dynodi'r gweithgareddau addysgu, ymchwil, datblygiad proffesiynol parhaus, gweinyddol ac eraill y mae addysgwyr ar gontract i'w cyflawni. Dylai'r amser a'r gweithgareddau yn ymwneud â datblygu sgiliau ar gyfer gwella'r rhaglen cyn cofrestru yn barhaus gael eu disgrifio hefyd.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn ymgorffori egwyddorion datblygu proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes (Broughton a Harris 2019) a'r Fframwaith Datblygu Gyrfa (RCOT 2017b) yn y cynllunio datblygiad proffesiynol ar gyfer addysgwyr.<br><br>CV addysgwyr yn dangos eu bod yn ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes trwy amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys ymchwil pan fydd yn briodol. Dogfennau'r rhaglen yn amlinellu sut y bydd addysgwyr, dysgwyr y rhaglen cyn cofrestru a/neu'r darparwr addysg yn cael budd o'r datblygu proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes a wnaed. |
| | 3.11.2 | Gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes y mae addysgwyr yn ymwneud â nhw, yn cael effaith uniongyrchol ar ddyluniad a chyflwyno cwricwlwm cyfoes ac ar sail tystiolaeth. | |
| Safon 3.12 | | Rhaid i'r adnoddau i gefnogi dysgu ym mhob lleoliad fod yn effeithiol a phriodol i gynnig y rhaglen cyn cofrestru a rhaid iddynt fod yn hygyrch i'r holl ddysgwyr ac addysgwyr. | |
| Meini prawf | 3.12.1 | Yr adnoddau yn cyd-fynd yn dda ag athroniaeth a diben y rhaglen cyn cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â rheoli adnoddau:<br>• Yn cyd-fynd ag athroniaeth a diben diffiniedig y rhaglen cyn cofrestru ar y lefel academaidd perthnasol.<br>• Yn dangos sut y mae'r adnoddau sydd ar gael gan gynnwys |
| | 3.12.2 | Cyfleusterau, offer ac adnoddau yn hygyrch, yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda, yn addas i'r diben ac yn cefnogi cyflawni'r deilliannau dysgu. | |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | 3.12.3 | Deunyddiau dysgu, adnoddau a gweithgareddau yn hygyrch i ddysgwyr ac addysgwyr gydag anghenion a gallu amrywiol. | adnoddau llyfrgell, dysgu ar-lein, deunyddiau addysgu, offer arbenigol a chyllid yn gallu bodloni anghenion dysgwyr ac addysgwyr.<br>• Yn cyfiawnhau'r gofod addysgu, lleoliadau ar gyfer gweithgareddau dysgu arbenigol, gofod storio sydd ar gael ac argaeledd gofod swyddfa i addysgwyr, staff gweinyddol a chefnogi.<br>• Yn disgrifio sut y mae offer a deunyddiau ar gyfer ymyraethau therapi galwedigaethol ar gael ar gyfer dibenion dysgu yn cyd-fynd â thechnoleg, economi, gwerthoedd a daearyddiaeth lleol.<br>• Yn dangos sut y mae'r amrywiaeth o anghenion a galluoedd ymhlith addysgwyr a dysgwyr wedi cael eu hystyried. Dylai hefyd ddisgrifio sut y mae unrhyw broblemau posibl wedi cael eu dynodi a'r dull y mae'r darparwr addysg wedi ei ddefnyddio i ymdrin â'r problemau hyn neu i ddatblygu strategaethau i liniaru eu heffaith.<br><br>Datblygiad Proffesiynol Parhaus cychwynnol a pharhaus a dysgu gydol oes i'r holl staff yn cynnwys y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol i roi gwerth ar amrywiaeth a gweithio heb wahaniaethu. |
| Safon 3.13 | | Rhaid cael trefniadau effeithiol a hygyrch yn eu lle i gefnogi anghenion llesiant a dysgu y dysgwyr ym mhob lleoliad. | |
| Meini prawf | 3.13.1 | Rhaid dyrannu tiwtor i bob dysgwr sydd â chyfrifoldeb am gynnig cyngor academaidd cyffredinol, yn ogystal â mentora a chefnogi datblygiad proffesiynol y dysgwr. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r prosesau ar gyfer dyrannu tiwtor a sut y mae'r rôl yn cefnogi anghenion y dysgwr yn effeithiol, gan gynnwys datblygu ei hunaniaeth sy'n benodol |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | 3.13.2 | Dysgwyr yn gwybod am y gwasanaethau cefnogi a ddarperir gan weithwyr proffesiynol gyda chymwysterau priodol ac yn gallu eu defnyddio. | i'w broffesiwn. Rhaid i'r Tiwtor fod yn aelod academaidd o dîm y rhaglen cyn cofrestru. Er nad oes raid i'r Tiwtor fod yn therapydd galwedigaethol, rhaid i ddogfennau'r rhaglen ddisgrifio'r wybodaeth a roddir i ddysgwyr o ran sut i gysylltu ag aelod o'r tîm rhaglen cyn cofrestru sydd yn therapydd galwedigaethol, os bydd.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r gwasanaethau sydd ar gael i ddysgwyr yn cynnig y gefnogaeth y gall fod arnynt ei hangen i gwblhau'r rhaglen cyn cofrestru yn llwyddiannus. Gall hyn gynnwys gwasanaethau personol, iechyd meddwl, iechyd corfforol, dysgu cefnogol, ariannol neu fugeiliol. Gall darparwyr addysg ddarparu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol neu trwy hwyluso mynediad atynt i ddysgwyr. |
| Safon 3.14 | | Rhaid gweithredu a monitro polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth yng nghyswllt dysgwyr. | |
| Meini prawf | 3.14.1 | Egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn glir, tryloyw ac yn cael eu dangos trwy gydol y rhaglen cyn cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen sy'n ymwneud â chyfranogiad a chwblhau'r rhaglen cyn cofrestru yn disgrifio yn glir sut y mae unigolion sy'n cael eu diffinio gan unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelir - oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a cyfeirladedd rhywiol (Prydain Fawr. Senedd 2010) - yn cael eu cefnogi trwy eu hymwneud â'r darparwr addysg.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn disgrifio sut y mae'r |
| | 3.14.2 | Addysgwyr ac addysgwyr ymarfer yn dangos y sgiliau a'r ymrwymiad i hybu newid tuag at gymdeithas fwy cynhwysol a chyfranogol. | |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes sydd ar gael i addysgwyr ac addysgwr ymarfer yn cynnwys egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, gyda'r nod o gryfhau'r sgiliau sy'n angenrheidiol i ddatblygu proffesiwn sy'n fwy cynhwysol a chyfranogol. |
| Safon 3.15 | | Rhaid cael proses drylwyr ac effeithiol yn ei lle i dderbyn ac ymateb i gwynion gan ddysgwyr. | |
| Meini prawf | 3.15.1 | Dysgwyr yn cael digon o wybodaeth am y broses i'w dilyn ar gyfer unrhyw gwynion yn ymwneud â'r rhaglen cyn cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â'r broses gwynion yn disgrifio sut y mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyfleu i ddysgwyr ac yn diffinio amserlen addas ar gyfer ymateb gan y darparwr addysg. |
| | 3.15.2 | Ymateb prydlon a phriodol yn cael ei roi i ddysgwyr yn dilyn cwyn. | |
| Safon 3.16 | | Rhaid cael proses drylwyr ac effeithiol yn ei lle i sicrhau addasrwydd ymddygiad, cymeriad ac iechyd y dysgwyr. | |
| Meini prawf | 3.16.1 | Y strategaeth a dulliau dysgu yn sicrhau ffitrwydd ar gyfer y proffesiwn. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r rhaglen cyn cofrestru yn cyd-fynd â'r safonau proffesiynol ymarfer a disgwyliadau moesegol ac ymddygiad proffesiynol y proffesiwn. Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r darparwr addysg yn cefnogi a galluogi cynnydd i ddysgwyr sy'n addas i'r proffesiwn. Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys y broses ar gyfer ymchwilio i bryderon am addasrwydd i ymarfer a therfynu posibl ar ymrestriad dysgwr ar y sail honno.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn amlinellu dull y darparwr addysg o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys y cysylltu parhaus â chyflogwyr presennol a phosibl therapyddion galwedigaethol. |
| | 3.16.2 | Cyflogwyr y dyfodol yn hyderus bod graddedigion yn addas ar gyfer y proffesiwn ac i'w cyflogi ac ymuno â'r gweithlu fel ymarferwyr annibynnol eto newydd, beth bynnag lefel eu cymhwyster cyn cofrestru. | |
| | 3.16.3 | Dysgwyr yn cynnal y nodweddion personol a phroffesiynol sy'n addas ar gyfer ymarfer fel therapydd galwedigaethol. | |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â monitro a gwella ansawdd yn disgrifio'r broses ar gyfer casglu a dadansoddi adborth gan addysgwyr, addysgwyr ymarfer, dysgwyr, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, arholwyr allanol a chyflogwyr presennol a phosibl therapyddion galwedigaethol. Dylai adborth hefyd gynnwys gwybodaeth am berfformiad graddedigion y rhaglen cyn cofrestru.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r darparwr addysg yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn parhau i fod yn addas ar gyfer y proffesiwn therapi galwedigaethol, trwy gydol eu hymrestriad. Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys y broses i ddysgwyr hysbysu eu darparwr addysg os bydd ganddynt unrhyw newid yn eu cofnodion troseddol. Y meini prawf i'r darparwr addysg hysbysu'r HCPC am gofnod troseddol dysgwr wrth ymgeisio am gofrestriad proffesiynol yn cael eu disgrifio. Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau'r darparwr addysg parthed gwaharddiad academaidd.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'n rhaid dechrau ar drafodaethau a yw dysgwr yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer y proffesiwn, a thrwy hynny yn gymwys i barhau ei ymrestriad, cyn gynted ag y daw yn amlwg bod problem bosibl. Prosesau priodol a chymesur yn eu lle ac yn cael eu gweithredu gan y darparwr addysg trwy gydol ymrestriad y dysgwr ar raglen cyn cofrestru. |

| Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 3.17 | | Rhaid cael proses effeithiol yn ei lle i gefnogi a galluogi dysgwyr i godi pryderon am ddiogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol. | |
| Meini prawf | 3.17.1 | Dysgwyr yn cael eu grymuso a'u cefnogi i godi pryderon am ddiogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â dysgu wrth ymarfer yn disgrifio sut y mae dysgwyr yn cael eu grymuso a'u cefnogi i godi pryderon am ddiogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol. Tystiolaeth am gamau diogelu i ddysgwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol yn nogfennau'r rhaglen. Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, y dysgwyr hynny hefyd yn cael eu grymuso a'u cefnogi i godi pryderon am ddiogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol eu cyflogwr. |
| Safon 3.18 | | Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod dysgwyr, addysgwyr ac eraill yn gwybod mai dim ond cwblhau rhaglen cyn cofrestru wedi ei chymeradwyo yn llwyddiannus sy'n arwain at gymhwyster i gael eich derbyn ar Gofrestr HCPC. | |
| Meini prawf | 3.18.1. | 3.18.1 Dysgwyr yn cael digon o wybodaeth yn esbonio na fydd dyfarniadau gadael neu ddyfarniadau eraill a gynigir gan eu darparwr addysg, efallai, yn arwain at gymhwyster i ymgeisio am gael eu cofrestru fel therapydd galwedigaethol. | Yn nogfennau'r rhaglen, dylid gwahaniaethu yn glir rhwng dyfarniadau gadael neu ddyfarniadau eraill wrth orffen sy'n arwain at gymhwyster i gofrestru fel therapydd galwedigaethol gyda'r HCPC â'r rhai sy'n rhoi dyfarniad nad yw'n arwain at gymhwyster i ymgeisio am gofrestru fel therapydd galwedigaethol. Ni ddylid cynnwys unrhyw gyfeiriad at y teitl o therapydd galwedigaethol mewn dyfarniad aegrotat, wrth adael neu unrhyw ddyfarniadau gadael eraill nad ydynt yn cynnig cymhwyster ar gyfer cofrestru fel therapydd galwedigaethol. Rhaid i ddyfarniadau aegrotat, gadael neu |
| | 3.18.2 | Dysgwyr yn cael gwybodaeth am ofynion cymhwyster aelodaeth broffesiynol o RCOT. | |

<table>
<tr><th colspan="4">Maes 3: Llywodraethu, rheoli ac arweinyddiaeth rhaglen cyn cofrestru</th></tr>
<tr><td colspan="3">Safonau a meini prawf</td><td>Cyfarwyddyd a thystiolaeth</td></tr>
<tr><td>Meini prawf</td><td>3.18.3</td><td>Dysgwyr, addysgwyr ac eraill yn cael gwybodaeth ddigonol i’w cefnogi i ddeall sut mae’r rhaglen yn ateb y gofynion trothwy ar gyfer cymhwyster i wneud cais i gofrestr HCPC er mwyn ymuno â’r gweithlu fel ymarferydd newydd, beth bynnag yw lefel academaidd yr astudiaeth.</td><td>ddyfarniadau eraill posibl wrth adael gael eu hystyried gan y darparwr addysg ymlaen llaw a’u nodi yn nogfennau’r rhaglen.<br><br>Dogfennau’r rhaglen yn disgrifio’r wybodaeth a roddir i ddysgwyr am rôl RCOT a gofynion cymhwyster a manteision aelodaeth broffesiynol o RCOT.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="4">Maes 4: Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru</th></tr>
<tr><td colspan="3">Safonau a meini prawf</td><td>Cyfarwyddyd a thystiolaeth</td></tr>
<tr><td colspan="2">Safon 4.1</td><td colspan="2">Rhaid i’r deilliannau dysgu sicrhau bod dysgwyr yn cyrraedd y safonau gallu ar gyfer y rhan berthnasol o Gofrestr yr HCPC.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Meini prawf</td><td>4.1.1</td><td>Y deilliannau dysgu yn paratoi dysgwyr i fodloni’r safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer erbyn diwedd y rhaglen cyn cofrestru.</td><td rowspan="2">Dogfennau’r rhaglen yn disgrifio sut y mae’r deilliannau dysgu yn cyd-fynd â’r safonau proffesiynol ymarfer a sut y bydd dysgwyr yn cael eu hasesu i fod yn cyrraedd y deilliannau dysgu.<br><br>Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, dogfennau’r rhaglen yn cynnwys mapio’r rhaglen prentisiaeth cyn cofrestru a’r asesiad terfynol i safon Prentisiaeth – Therapydd Galwedigaethol (Gradd Integredig) (Y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol 2021a).<br><br>Dogfennau’r rhaglen yn disgrifio’r gweithgareddau dysgu ac asesu a drefnwyd trwy gydol y rhaglen cyn cofrestru.<br><br>Rhaid i hyd y rhaglen cyn cofrestru fod yn 90 wythnos o ddysgu a drefnwyd, o leiaf.</td></tr>
<tr><td>4.1.2</td><td>Y rhaglen cyn cofrestru yn ddigon hir i sicrhau ei bod yn paratoi dysgwyr i fod yn addas i’r proffesiwn.</td></tr>
</table>

| Maes 4: Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | Fel arfer disgwylir i gyfnod unigol o ddysgu gael ei gwblhau o fewn hyd arferol y rhaglen cyn-cofrestru ynghyd â dwy flynedd, ac yn unol â rheoliadau prifysgol. Dylai dysgwyr sydd angen amser ychwanegol tu hwnt i hyd arferol eu rhaglen gael cynllun astudiaeth unigol i alluogi cwblhau gofynion y rhaglen yn llwyddiannus.<br><br>Mae dogfennau'r rhaglen yn cydnabod pwysigrwydd proses ar gyfer diffinio unrhyw amrywiad yng nghynnydd dysgwr drwy'r rhaglen cyn-cofrestru. Caiff y meini prawf cymhwyster ar gyfer pryd y caiff cynllun astudiaeth unigol ei ystyried a'i weithredu hefyd eu hamlinellu yn nogfennau'r rhaglen.<br><br>Mae dogfennau'r rhaglen yn dynodi bod yn rhaid dechrau ar drafodaeth am p'un ai a fernir fod dysgwr yn addas ar gyfer y proffesiwn, ac felly'n gymwys i barhau eu hymrestru cyn gynted ag y daw'n amlwg y gall fod problem. Mae prosesau priodol a chymesur yn eu lle a chânt eu gweithredu gan y darparydd addysg drwy gydol ymrestriad dysgwr yn y rhaglen cyn-cofrestru. |
| Safon 4.2 | | Rhaid i'r deilliannau dysgu sicrhau bod dysgwyr yn deall ac yn gallu bodloni disgwyliadau ymddygiad proffesiynol, gan gynnwys y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg. | |
| Meini prawf | 4.2.1 | Y deilliannau dysgu yn paratoi dysgwyr i gyrraedd disgwyliadau moesegol ac ymddygiad proffesiynol y proffesiwn. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r deilliannau dysgu yn cyd-fynd â disgwyliadau moesegol ac ymddygiad proffesiynol y proffesiwn. Dogfennau'r rhaglen yn dangos sut y bydd dysgwyr yn cael |

| Maes 4: Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | eu hasesu fel rhai sy'n cyrraedd y deilliannau dysgu.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn diffinio cyfrifoldebau, rolau a'r disgwyliadau o ddysgwyr ar draws pob elfen o'r rhaglen cyn cofrestru ac yn nodi yn glir beth yw canlyniadau peidio â chyflawni'r rhain. |
| Safon 4.3 | | Rhaid i'r rhaglen cyn cofrestru adlewyrchu athroniaeth, gwerthoedd craidd, sgiliau a sail gwybodaeth y proffesiwn. | |
| Meini prawf | 4.3.1 | Egwyddorion craidd therapi galwedigaethol ac ymarfer yn seiliedig ar alwedigaeth yn cael eu hintegreiddio i bob rhan o'r rhaglen cyn cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn dangos bod lleiafswm o 60 y cant o'r rhaglen cyn cofrestru yn canolbwyntio ar alwedigaeth a therapi galwedigaethol a sut y mae egwyddorion craidd therapi galwedigaethol ac ymarfer ar sail galwedigaeth yn cael eu hymwreiddio trwyddi. Y cwricwlwm yn disgrifio sut y mae dysgwyr yn cael eu paratoi i dderbyn risg a galluogi dewis (RCOT 2018). Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae argymhellion ar gyfer addysgu dysgwyr yng nghysyniadau iechyd cyhoeddus ac atal wedi cael eu hystyried (Council of Deans of Health 2017).<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y bydd dysgwyr yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ymateb i faterion galwedigaethol sy'n codi oherwydd anghysondebau cymdeithasol ac iechyd, amrywiaeth a materion hawliau dynol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r datganiadau athroniaeth a diben sy'n cynnwys ymrwymiad i addysgu |
| | 4.3.2 | Dysgwyr yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ymateb i faterion galwedigaethol sy'n codi oherwydd anghysondebau cymdeithasol ac iechyd, amrywiaeth a materion hawliau dynol i boblogaethau, cymunedau ac unigolion. | |
| | 4.3.3 | Dysgwyr wedi ymrwymo i brosesau o newid a datblygu eu sgiliau wrth hyrwyddo newid tuag at gymdeithas fwy cynhwysol a chyfranogol. | |
| | 4.3.4 | Y rhaglen cyn cofrestru yn paratoi dysgwyr i:<br>• gadw galwedigaeth yn ganolog i'w hymarfer<br>• gyflawni ymarfer diogel, effeithiol, sy'n rhoi pwyslais ar yr unigolyn a moesegol<br>• ddefnyddio doethineb, rhesymeg a llunio penderfyniadau proffesiynol. | |

| Maes 4: Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | 4.3.5 | Mae'r rhaglen cyn cofrestru yn paratoi dysgwyr i:<br>• ddysgu, mentora, goruchwylio a/neu asesu eraill<br>• hwyluso dysgu wrth ymarfer<br>• greu a gwerthuso amgylcheddau, offer a deunyddiau dysgu. | dysgwyr i hybu newid tuag at gymdeithas fwy cynhwysol a chyfranogol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut mae'r cwricwlwm yn cyd-fynd â phob un o'r Pedair Piler Ymarfer yn y Fframwaith Datblygu Gyrfa (RCOT 2017b)*:<br>• Ymarfer Proffesiynol<br>• Hwyluso Dysgu<br>• Arweinyddiaeth<br>• Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu. |
| | 4.3.6 | Mae'r rhaglen cyn cofrestru yn paratoi dysgwyr i:<br>• ddynodi, monitro a chryfhau eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain<br>• gyfarwyddo a/neu hwyluso gwaith tîm<br>• ddylunio, gweithredu a rheoli newid proffesiynol a/neu sefydliadol. | |
| | 4.3.7 | Mae'r rhaglen cyn cofrestru yn paratoi dysgwyr i:<br>• ddylanwadu ar agendâu cymdeithasol-economaidd a gwleidyddol ehangach<br>• ddefnyddio a/neu drosi tystiolaeth fel sail i ymarfer<br>• ddylunio, gweithredu, gwerthuso a rhannu ymchwil. | |
| Safon 4.4 | | Rhaid i'r cwricwlwm barhau yn berthnasol i ymarfer cyfredol. | |
| Meini prawf | 4.4.1 | Dysgwyr yn cael eu paratoi i ddod i mewn i'r proffesiwn gyda'r sgiliau a'r wybodaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y dystiolaeth, i fodloni anghenion presennol a dyfodol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r rhaglen cyn cofrestru yn ystwyth ac yn gallu ymateb i newidiadau a blaengaredd yn yr ymarfer cyfredol. Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â monitro a gwella ansawdd yn amlinellu sut y mae'r cwricwlwm yn cael ei adolygu a newidiadau i ymarfer yn cael eu hadlewyrchu.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn dangos sut y mae'r argymhellion ar gyfer addysgu dysgwyr i ymwneud â |
| | 4.4.2 | Dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth am anghenion iechyd a llesiant presennol ac a ragwelir a'r rhai galwedigaethol cysylltiedig sy'n berthnasol i gymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. | |

* Lansiwyd yr ailargraffiad o'r Fframwaith Datblygu Gyrfa yn 2021 (RCOT 2021a), gan ddisodli'r argraffiad cyntaf (RCOT 2017b).

| Maes 4: Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | 4.4.3 | Dysgwyr yn gallu ymgorffori data cyfredol ac sy'n dod i'r amlwg am anghyfartaledd cymdeithasol, economaidd, sefydliadol, amgylcheddol ac iechyd wrth ddylunio a blaenoriaethu gwasanaethau therapi galwedigaethol. | system iechyd sydd wedi ei galluogi yn ddigidol a'i chefnogi wedi eu hystyried (Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2019), a'u rhoi yng nghyd-destun pob system arall y mae therapyddion galwedigaethol yn gweithio ynddynt.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth am anghenion iechyd a llesiant presennol ac a ragwelir a'r galwedigaethau, yng nghyd-destun cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymgorffori'r pum egwyddor arweiniol ar gyfer cynaliadwyedd mewn ymarfer, addysg ac ysgolheictod therapi galwedigaethol (WFOT 2018).<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgwyr yn barod i gymryd rhan a chyfrannu at drafodaethau sy'n cael dylanwad ar rôl bresennol a rolau therapyddion galwedigaethol yn y dyfodol, er enghraifft trafodaethau am beirianweithiau meddygaeth, cwmpas arfer ac ail-ddylunio gwasanaethau.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgwyr yn cael eu paratoi i fod yn entrepreneuraidd, blaengar a mentrus, yn arbennig yn eu hagwedd at flaengaredd yn y gwasanaeth. |
| | 4.4.4 | Dysgwyr yn gallu dynodi dylanwadau proffesiynol a gwleidyddol ar y proffesiwn therapi galwedigaethol ac yn barod i siapio cyfeiriad y gweithlu yn y dyfodol. | |
| | 4.4.5 | Dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn entrepreneuraidd, blaengar a mentrus, yn arbennig yn eu hagwedd at flaengaredd yn y gwasanaeth | |
| Safon 4.5 | | Rhaid i integreiddio theorïau, tystiolaeth ac ymarfer fod yn ganolog i'r rhaglen cyn cofrestru. | |
| | 4.5.1 | Adlewyrchir dilysrwydd y cwricwlwm trwy gynnwys theorïau, tystiolaeth ac ymarfer trwy'r | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae theorïau, tystiolaeth ac ymarfer yn cael eu hintegreiddio |

| Maes 4: Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | rhaglen cyn cofrestru gyfan ac ar draws elfennau academaidd a dysgu wrth ymarfer. | trwy'r cwricwlwm, beth bynnag yw'r dull addysgol a ddefnyddir.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn diffinio sut y mae dysgwyr yn datblygu a defnyddio sgiliau yn gysylltiedig â defnyddio ymchwil wrth ymarfer. |
| | 4.5.2 | Dysgwyr yn fedrus wrth ddod o hyd i dystiolaeth ymchwil, ei gwerthuso a'i defnyddio fel sail i'w hymarfer wedi ei aseinio i lefel academaidd eu rhaglen cyn-cofrestru. | |
| Safon 4.6 | | Rhaid i'r dulliau dysgu ac addysgu a ddefnyddir fod yn addas ar gyfer cyflawni'r deilliannau dysgu yn effeithiol. | |
| Meini prawf | 4.6.1 | Dulliau dysgu ac addysgu ar sail tystiolaeth, yn tynnu ar theorïau addysgiadol addas i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r modelau yn y cwricwlwm. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r dulliau dysgu ac addysgu yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn dangos sut y mae theorïau addysgol yn sail i'r holl ddysgu.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn cyfiawnhau'r ystod o dechnegau a thechnolegau addysgol a ddefnyddir gan y darparwr addysg, gan gynnwys dysgu ar-lein ac o bell pan fydd hynny'n briodol.<br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae unrhyw ddulliau dysgu ac addysgu lleol yn cael eu gwerthfawrogi a'u hymgorffori.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r darparwr addysg yn paratoi dysgwyr trwy broses gynefino cyn pob pwynt trosglwyddo (er enghraifft, blwyddyn academaidd newydd), trwy osod y disgwyliadau cysylltiedig.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r dulliau dysgu ac addysgu yn cael eu cyfleu i ddysgwyr, er mwyn bod yn dryloyw. |
| | 4.6.2 | Dulliau dysgu ac addysgu yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau a thechnolegau i ymdrin ag anghenion andragogig y dysgwr. | |
| | 4.6.3 | Dysgwyr yn barod ar gyfer pob pwynt trosglwyddo yn y rhaglen cyn cofrestru a'r holl ddisgwyliadau cysylltiedig. | |
| | 4.6.4 | Y dulliau dysgu ac addysgu yn dryloyw i'r dysgwr. | |

| Maes 4: Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 4.7 | | Rhaid i gyflwyno'r rhaglen cyn cofrestru gefnogi a datblygu meddwl annibynnol ac ystyriol. | |
| Meini prawf | 4.7.1 | Y dulliau dysgu ac addysgu yn paratoi dysgwyr ar gyfer ymarfer annibynnol. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r dulliau dysgu ac addysgu yn paratoi dysgwyr ar gyfer ymarfer annibynnol ac yn datblygu eu dealltwriaeth o gwmpas yr ymarfer.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae meddwl ystyriol yn cael ei feithrin.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut mae'r dulliau dysgu ac addysgu yn datblygu sgiliau meddwl beirniadol a llunio penderfyniadau.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut mae'r cwricwlwm yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes (Broughton a Harris 2019) ac yn defnyddio'r Fframwaith Datblygu Gyrfa (RCOT 2017b) fel adnodd. Dogfennau'r rhaglen yn esbonio sut y mae dysgwyr yn cael eu galluogi i gofnodi llwyddiannau a llunio cynllun datblygu at y dyfodol. |
| | 4.7.2 | Y dulliau dysgu ac addysgu yn cefnogi'r dysgwyr i roi gwerth ar effaith meddwl ystyriol. | |
| | 4.7.3 | Y dulliau dysgu ac addysgu wedi eu dylunio i ddatblygu sgiliau meddwl yn feirniadol a llunio penderfyniadau. | |
| | 4.7.4 | Y dulliau dysgu ac addysgu yn meithrin datblygiad dysgu annibynnol. | |
| Safon 4.8 | | Rhaid i gyflwyno'r rhaglen cyn cofrestru gefnogi a datblygu ymarfer ar sail tystiolaeth wedi'i alinio gyda lefel academaidd eu rhaglen cyn-cofrestru wedi alinio gyda lefel academaidd eu rhaglen cyn-cofrestru. | |
| Meini prawf | 4.8.1 | Dysgwyr yn datblygu sgiliau ymchwil meintiol ac ansoddol ac yn barod i ddefnyddio sgiliau ymchwil i ymgysylltu ag ymchwil a gwelliannau mewn ymarfer. | Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys datganiad clir yn disgrifio nodau ac amcanion addysg ymchwil ac yn dangos sut y mae hyn wedi ymwreiddio trwy'r rhaglen cyn cofrestru i ddatblygu ymarferwr ar sail tystiolaeth. Y cwricwlwm yn disgrifio caffael sgiliau ymchwil meintiol ac ansoddol a rhaid iddo gefnogi dulliau sy'n addas ar gyfer |
| | 4.8.2 | Dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth a sgiliau y maent wedi eu cael mewn prosiect ymchwil, ymholiad, gwerthusiad neu flaengaredd wedi'i | |

| Maes 4: Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | alinio gyda lefel academaidd eu rhaglen cyn-cofrestru. | ymchwil mewn therapi galwedigaethol. Y cwricwlwm yn cael ei ddylunio i ddatblygu hyder y graddedigion wrth ddefnyddio sgiliau ymchwil i gefnogi ymwneud ag ymchwil a chymryd rhan ynddo.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae caffael gwybodaeth a sgiliau yn gysylltiedig ag ymchwil yn cael ei weithredu trwy brosiect ymchwil, ymchwilio, gwerthuso neu flaengaredd.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgwyr yn caffael dull ymchwilio ar sail ymchwil sy'n eu hannog i gymryd rhan yn arferion ymchwil therapi galwedigaethol ac yn eu galluogi i ymwneud yn weithredol a chreadigol â chwestiynau ymchwil a materion ymarfer.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgwyr yn cael eu paratoi i fedru dewis a chyfiawnhau dyluniadau astudiaethau, dulliau a moeseg sy'n addas i ymchwil mewn therapi galwedigaethol.<br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgwyr yn caffael y sgiliau i werthuso effaith ymyraethau therapi galwedigaethol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgwyr yn datblygu eu sgiliau i fedru ymgysylltu yn ystyrlon â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol wrth ddylunio a chynnal gwaith ymchwil. |
| | 4.8.3 | Dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth am yr egwyddorion moeseg ymchwil a llywodraethu ac yn gallu eu defnyddio wrth ymarfer. | |
| | 4.8.4 | Dysgwyr yn gallu casglu a dadansoddi data a defnyddio dulliau mesur deilliannau i werthuso effaith therapi galwedigaethol. | |
| | 4.8.5 | Dysgwyr yn datblygu eu sgiliau wrth ymgysylltu yn ystyrlon â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol wrth ddylunio a chynnal gwaith ymchwil. | |

<table>
<tr><th colspan="4">Maes 4: Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru</th></tr>
<tr><td colspan="3">Safonau a meini prawf</td><td>Cyfarwyddyd a thystiolaeth</td></tr>
<tr><td colspan="2">Safon 4.9</td><td colspan="2">Rhaid i'r rhaglen cyn cofrestru sicrhau bod dysgwyr yn gallu dysgu gyda, trwy ac am weithwyr proffesiynol a dysgwyr mewn proffesiynau eraill perthnasol.</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Meini prawf</td><td>4.9.1</td><td>Dysgu rhyngbroffesiynol yn ymwneud â gwahanol broffesiynau mewn systemau iechyd, llesiant, cymdeithasol a gofal integredig a thu hwnt i hynny yn cael ei ymwreiddio yn yr elfennau dysgu academaidd ac wrth ymarfer i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a'r ymddygiad proffesiynol sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer cydweithredol.</td><td rowspan="4">Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae gan ddysgwyr brofiadau dysgu rhyngbroffesiynol gyda phroffesiynau iechyd, llesiant, cymdeithasol a gofal integredig eraill yn ogystal â phroffesiynau eraill perthnasol, fel yr heddlu neu athrawon, pan fydd yn bosibl. Dylai proffesiynau tu hwnt i'r systemau iechyd, llesiant, cymdeithasol a gofal integredig hefyd gael eu hystyried, er enghraifft, dysgu oddi wrth neu gyda gweithwyr proffesiynol peirianneg a gwyddor cyfrifiadurol fel yr argymhellir ar gyfer datblygu'r gweithlu iechyd i ymarfer mewn system wedi ei galluogi yn ddigidol (GIG 2019).<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio egwyddorion craidd dysgu rhyngbroffesiynol a sut y maent yn cyd-fynd ag egwyddorion craidd therapi galwedigaethol. Rhaid cael rhesymeg glir ar gyfer cynnwys dysgu rhyngbroffesiynol yn y rhaglen cyn cofrestru. Rhaid i unrhyw ddysgu rhyngbroffesiynol a ddynodir fel un sy'n cyfrannu at y dyfarniad gyfrannu at ddeilliannau dysgu'r rhaglen cyn cofrestru.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn dangos bod y broses o ddatblygu dysgu rhyngbroffesiynol yn un gydweithredol, yn cynnwys cyfraniad cyfartal ac yn rhoi gwerth cyfartal i bob cyfraniad.</td></tr>
<tr><td>4.9.2</td><td>Rhaid i ddysgu rhyngbroffesiynol fod yn brofiad addysgol cynhyrchiol a pherthnasol i'r holl ddysgwyr.</td></tr>
<tr><td>4.9.3</td><td>Yr holl broffesiynau sydd wedi bod yn rhan o ddysgu rhyngbroffesiynol wedi cyfrannu yn gyfartal at ddiffinio cwmpas y dysgu rhyngbroffesiynol a datblygu'r deunyddiau addysgiadol.</td></tr>
<tr><td>4.9.4</td><td>Ni fydd dysgu rhyngbroffesiynol yn fwy na thraen o'r rhaglen cyn cofrestru.</td></tr>
</table>

| Maes 4: Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r gyfran o'r rhaglen cyn cofrestru sy'n ymwneud â dysgu rhyngbroffesiynol a'r gyfran a nodir yn ddim mwy na thraean o'r holl raglen cyn cofrestru. |
| Safon 4.10 | | Rhaid i'r rhaglen cyn cofrestru gynnwys prosesau effeithiol ar gyfer cael cydsyniad priodol gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, a gan ddysgwyr. | |
| Meini prawf | 4.10.1 | Mae diogelu dysgwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol yn egwyddor cyfarwyddo y rhaglen cyn-cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â dysgu wrth ymarfer yn disgrifio'r broses ar gyfer cael cydsyniad gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol cyn iddynt ymwneud â dysgwyr. Y broses o gael cydsyniad gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol o ran<br><br>eu hymwneud â datblygu, gweithredu ac adolygu rhaglen cyn cofrestru hefyd yn cael ei disgrifio. Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r broses ar gyfer cael cydsyniad dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu neu asesu pan fyddant yn cymryd rhan pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol.<br><br>Tystiolaeth am gamau diogelu i ddysgwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol yn nogfennau'r rhaglen.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn disgrifio sut y mae'r datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes sydd ar gael i addysgwyr ac addysgwr ymarfer yn cynnwys y sgiliau a'r wybodaeth i |

| Maes 4: Dyluniad a darparu rhaglen cyn cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| | | | sicrhau bod dysgwyr a phobl yn defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol yn cael eu diogelu. |
| Safon 4.11 | | Rhaid i'r darparwr addysg ddynodi a chyfleu i ddysgwyr pa rannau o'r rhaglen cyn cofrestru y mae'n orfodol bod yn bresennol arnynt a rhaid cael prosesau monitro cysylltiedig yn eu lle. | |
| Meini prawf | 4.11.1 | Rhaid i'r holl asesiadau yn y rhaglen cyn cofrestru sy'n arwain at gymhwyster i ymgeisio am gael cofrestru fel therapydd galwedigaethol gyda'r HCPC gael eu cwblhau yn llwyddiannus. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r holl asesiadau sy'n cyfrannu at y dyfarniad, gan gynnwys elfennau academaidd a dysgu wrth ymarfer. Dogfennau'r rhaglen yn datgan yn glir bod rhaid i bob asesiad sy'n cyfrannu at y dyfarniad gael eu cwblhau yn llwyddiannus gan y dysgwr er mwyn iddynt fod yn gymwys i ymgeisio am gael cofrestru gyda'r HCPC fel therapydd galwedigaethol ac i fod yn gymwys ar gyfer aelodaeth broffesiynol o'r RCOT.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn cydnabod pwysigrwydd proses i ddiffinio unrhyw amrywiad yn natblygiad y dysgwr trwy'r rhaglen cyn cofrestru. Y meini prawf ar gyfer dynodi pryd y bydd cynllun astudio unigol yn cael ei ystyried a'i weithredu yn cael eu hamlinellu yn nogfennau'r rhaglen.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r camau y mae'r darparwr addysg yn eu cymryd i sefydlu cynllun astudio unigol, gan sicrhau ei fod yn ei le ar y cyfle cyntaf posibl. Ar gyfer dysgwyr sydd wedi ymrestru ar raglen prentisiaeth cyn cofrestru, ystyriaeth o rôl y cyflogwr wrth weithredu cynllun astudio unigol hefyd yn cael ei ddisgrifio. |
| | 4.11.2 | Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd darparwyr addysg yn sefydlu cynllun astudio unigol gydag unrhyw ddysgwr na fydd wedi gallu cwblhau, neu sydd wedi methu, asesiad gorfodol, ond sy'n gymwys i ymgeisio eto a symud ymlaen gyda'r rhaglen cyn cofrestru. | |

| Maes 5: Dysgu wrth ymarfer | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 5.1 | | Rhaid i ddysgu wrth ymarfer fod yn rhan ganolog o’r rhaglen cyn cofrestru. | |
| Meini prawf | 5.1.1 | Dysgu wrth ymarfer yn hwyluso’r broses i ddysgwr ffurfio ei hunaniaeth fel therapydd galwedigaethol ac yn datblygu dysgwyr i gyrraedd y safonau proffesiynol o ran ymarfer a disgwyliadau moesegol ac ymddygiad proffesiynol y proffesiwn. | Dogfennau’r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgu wrth ymarfer yn ganolog i’r broses addysgol. Dysgu wrth ymarfer yn cynnwys rhannau o’r cwricwlwm ac yn ddull addysgiadol, ond yn cael ei gydnabod ar wahân oherwydd bod safonau a meini prawf penodol yn berthnasol. Rhaid i ddysgu wrth ymarfer gael ei integreiddio yn briodol trwy’r cwricwlwm, ym mhob blwyddyn yn ddelfrydol.<br><br>Dogfennau’r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgu wrth ymarfer yn cyfrannu at ffurfio hunaniaeth y dysgwr fel therapydd galwedigaethol. Dogfennau’r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgu wrth ymarfer yn cyd-fynd â’r safonau proffesiynol ymarfer a disgwyliadau moesegol ac ymddygiad proffesiynol y proffesiwn. |
| Safon 5.2 | | Strwythur, hyd a’r ystod o ddysgu wrth ymarfer yn cefnogi cyflawni’r deilliannau dysgu a’r safonau medrusrwydd. | |
| Meini prawf | 5.2.1 | Digon o oriau dysgu wrth ymarfer yn ofynnol i’w cwblhau i greu graddedigion sy’n barod am waith. | Dogfennau’r rhaglen yn ymwneud â dysgu wrth ymarfer yn disgrifio sut y mae’n ofynnol i ddysgwyr gwblhau lleiafswm o 1000 o oriau o ddysgu wrth ymarfer wedi ei asesu yn llwyddiannus. Ar draws y rhaglen cyn cofrestru gyfan, gall hyn gynnwys unrhyw un neu’r cyfan o’r canlynol:<br>• Oriau a gydnabyddir fel dysgu blaenorol.<br>• Uchafswm o 40 awr o ddysgu wrth ymarfer efelychiadol.<br>• Uchafswm o 3.5 awr bob wythnos o ddysgu trwy astudio |
| | 5.2.2 | Trwy ddysgu wrth ymarfer, mae’r dysgwr yn cael y cyfle i brofi neu weithredu’r broses therapi galwedigaethol a chael gwybodaeth ehangach am y modd y darperir gwasanaeth. | |
| | 5.2.3 | Mae llwybr rhesymegol a strwythur i ddysgu wrth ymarfer, i sicrhau bod theori yn cael ei ddefnyddio wrth ymarfer. | |

| Maes 5: Dysgu wrth ymarfer | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | 5.2.4 | Ar gyfer dysgwyr mewn rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, rhaid i'r dysgu wrth ymarfer gael ei gynnal y tu allan i leoliad gwaith y gweithiwr ei hun, yn ddelfrydol y tu allan i sefydliad y cyflogwr. | wedi ei hunan gyfarwyddo yn berthnasol i ddysgu wrth ymarfer, neu'r cyfanswm cyfatebol pro-rata ar gyfer gweithgareddau dysgu wrth ymarfer nad ydynt yn llawn amser.<br><br>Rhaid i'r oriau o ddysgu wrth ymarfer y gellir eu hystyried i gydnabod dysg blaenorol:<br>• Beidio â bod yn hwy na'r oriau o ddysgu wrth ymarfer a drefnwyd ar gyfer y flwyddyn gyntaf o raglen cyn cofrestru'r darparwr addysg sy'n eu derbyn.<br>• Fod wedi cael eu hasesu.<br>• Fod wedi cael eu cwblhau yn llwyddiannus.<br><br>Y broses o asesu llwyddiant wrth gyrraedd deilliannau dysgu o'r dysgu wrth ymarfer cydnabyddedig yn cael ei disgrifio. Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys y trefniadau a wnaed gan y darparwr addysg i gefnogi ymgeiswyr trwy'r broses hon.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgu wrth ymarfer yn llawn amser, neu, pan fydd rhesymau yn cael eu rhoi, yn cyfateb i 0.5 o amser llawn o leiaf.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn amlinellu dull y darparwr addysg o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys sut y mae perthnasau gydag amrywiaeth eang o ddarparwyr dysgu wrth ymarfer yn cael eu sefydlu a'u meithrin. Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae nifer addas o therapyddion galwedigaethol yn trefnu dysgu |

| Maes 5: Dysgu wrth ymarfer | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | wrth ymarfer ac mewn rolau addysgwyr ymarfer.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd ar draws ystod eang o gyfleoedd dysgu wrth ymarfer. Yr holl gyfleoedd dysgu wrth ymarfer yn cynnwys ymyraethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yr alwedigaeth, a'r amgylchedd. Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae deilliannau dysgu ar sail ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol a disgwyliadau o'r gwasanaeth a ddarperir.<br><br>Dysgwyr yn profi amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ar sail ymarfer, fel:<br>• Lleoliadau cyhoeddus, annibynnol, preifat a thrydydd sector.<br>• Lleoliadau trefol, gwledig, lleol neu ryngwladol.<br>• Lleoliadau heb fod ar y rheng flaen, er mwyn cael profi rolau strategol ac arwain a/neu mewn adrannau ymchwil neu sefydliadau.<br>• Sefydliadau i bobl nad ydynt yn cael digon o waith, heb rym, wedi eu hamddifadu neu eu hallgau yn gymdeithasol.<br>• Sefydliadau sy'n gofalu am bobl o wahanol oedrannau, o gyd-destunau cymdeithasol-economaidd a diwylliannol gwahanol, sydd ag anghenion galwedigaethol a gododd yn ddiweddar a rhai tymor hir a'r rhai sydd â gwahanol allu corfforol a seico-gymdeithasol. |

| Maes 5: Dysgu wrth ymarfer | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | • Lleoliadau yn defnyddio dulliau unigol, grŵp, cymuned a phoblogaeth.<br>• Lleoliadau lle nad oes therapyddion galwedigaethol yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys samplau o'r cytundebau dysgu rhwng dysgwr ac addysgwr ymarfer. Dylai cytundebau dysgu nodi'r deilliannau dysgu cynyddol ar gyfer dysgu wrth ymarfer a rhaid i addysgwr sy'n therapydd galwedigaethol gytuno â nhw.<br>Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, dogfennau'r rhaglen yn cynnwys templed contract yn disgrifio:<br>• Cyfrifoldebau sefydliadol y cyflogwr, darparwr addysg a'r darparwr dysgu wrth ymarfer.<br>• Rolau a chyfrifoldebau'r dysgwr, y mentor yn y gwaith, yr addysgwr a'r addysgwr ymarferol.<br>• Statws dysgwr mewn cymhariaeth â gweithiwr, a'r cyd-destunau pan fydd y gwahaniaeth hwn yn bwysig.<br>• Yr ymrwymiad gan gyflogwyr i fodloni'r un disgwyliadau â darparwyr addysg o ran adnoddau digonol i sicrhau bod safon uchel yn y cyfleoedd addysg a dysgu a gynigir.<br>• Pryd a sut y bydd polisïau cyflogwyr a darparwyr addysg yn gweithredu a pha un fydd yn cael blaenoriaeth o ystyried yr amgylchiadau.<br><br>Dylai'r contract adlewyrchu cytundeb rhwng y dysgwr, y cyflogwr a'r darparwr addysg. |

| Maes 5: Dysgu wrth ymarfer | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | Efallai y bydd angen contract ychwanegol i ddangos y trefniadau ar gyfer yr asesiad terfynol.<br><br>Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae hawliau cyflogai (er enghraifft gwyliau blynyddol a gwyliau banc) a mannau lle mae pwysedd yn y gweithle yn cael eu hystyried wrth drefnu dysgu wrth ymarfer. |
| Safon 5.3 | | Rhaid i'r darparwr addysg gynnal system drylwyr ac effeithiol ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd y dysgu wrth ymarfer. | |
| Meini prawf | 5.3.1 | Cynigir dysgu wrth ymarfer o ansawdd i ddysgwyr, i hwyluso parhad a chadarnhau'r profiad dysgu. | Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â monitro a gwella ansawdd yn disgrifio'r broses ar gyfer casglu a dadansoddi adborth yn ymwneud â dysgu wrth ymarfer gan addysgwyr, addysgwyr ymarfer, dysgwyr, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, arholwyr allanol a chyflogwyr presennol a phosibl therapyddion galwedigaethol. Dylai adborth hefyd gynnwys gwybodaeth am berfformiad graddedigion y rhaglen cyn cofrestru.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â monitro a gwella ansawdd yn disgrifio sut y mae adborth a gesglir yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail ar gyfer datblygiad parhaus y rhaglen cyn cofrestru, gan gynnwys sut y gall darparwyr addysg fynd ati orau i baratoi, datblygu a chefnogi addysgwyr ymarfer.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau i reoli sefyllfaoedd lle mae lleoliad dysgu |

| Maes 5: Dysgu wrth ymarfer | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| | | | wrth ymarfer yn cael effaith negyddol ar addysg dysgwr. |
| Safon 5.4 | | Rhaid i ddysgu wrth ymarfer ddigwydd mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn gefnogol i ddysgwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol. | |
| Meini prawf | 5.4.1 | Modelau hyblyg a phriodol o oruchwyliaeth yn cael eu defnyddio sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu'r gallu i ymarfer yn ddiogel ac effeithiol. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae dysgu wrth ymarfer yn cael ei reoli yn wahanol ar draws ystod o leoliadau lle mae dysgu wrth ymarfer yn digwydd. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, modelau goruchwylio hyd braich lle mae dysgu wrth ymarfer yn digwydd mewn sefydliad sy'n anghyfarwydd â rôl therapyddion galwedigaethol. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, dylai rôl addysgwr ymarfer gynnwys cyfrifoldeb am hwyluso dysgu yn benodol i therapi galwedigaethol trwy oruchwylio hyd braich, yn hytrach na bod cefnogaeth yn cael ei roi gan staff y darparwr dysgu wrth ymarfer nad ydynt yn gyfarwydd ag egwyddorion therapi galwedigaethol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r strategaeth ar gyfer rheoli a threfnu elfennau dysgu wrth ymarfer o'r rhaglen cyn cofrestru. Mae hyn yncynnwys y dull o gysylltu â dysgwyr a chefnogi eu hanghenion dysgu wrth ymarfer. Dylid darparu tystiolaeth o sut y mae hyn yn cael ei weithredu hefyd.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn amlinellu dull y darparwr addysg o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys sut y mae perthnasau gydag amrywiaeth eang o ddarparwyr dysgu wrth ymarfer yn |
| | 5.4.2 | Yr holl ddysgwyr sy'n ymgymryd â dysgu wrth ymarfer â chefnogaeth gyfartal gan addysgwyr ymarfer, beth bynnag yw'r lleoliad neu lefel y dyfarniad. | |
| | 5.4.3 | Y darparwr addysg â chefnogaeth weinyddol yn ei lle ar gyfer trefnu a rheoli dysgu wrth ymarfer, sy'n cynnwys cefnogaeth i'r dysgwyr a'r addysgwyr ymarfer. | |
| | 5.4.4 | Dysgwyr, addysgwyr, addysgwyr ymarfer (a chyflogwyr a mentoriaid yn y gwaith yn achos rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru) yn cael eu cefnogi gan y darparwr addysg bob amser ond yn benodol mewn amgylchiadau pan fydd dysgwyr yn methu cyrraedd y deilliannau dysgu gofynnol neu ddangos addasrwydd ar gyfer y proffesiwn. | |

| Maes 5: Dysgu wrth ymarfer | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | cael eu sefydlu a'u meithrin. Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae nifer addas o therapyddion galwedigaethol yn trefnu dysgu wrth ymarfer ac mewn rolau addysgwyr ymarfer.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau addysgwyr, addysgwyr ymarfer (a chyflogwyr a mentoriaid yn y gwaith yn achos rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru) wrth reoli dysgwyr sy'n methu cyrraedd y deilliannau dysgu gofynnol. Disgrifir hefyd y broses ar gyfer ymchwilio i bryderon addasrwydd i ymarfer ac ar gyfer dirwyn ymrestriad posibl dysgwr i ben ar y seiliau hyn. Mewn achosion pan fydd pryder am allu dysgwr i barhau ar y rhaglen cyn cofrestru, y broses a ddefnyddir i hysbysu rhanddeiliaid perthnasol a llunio penderfyniad am barhad y dysgwr yn cael eu hamlinellu yn nogfennau'r rhaglen. Ar gyfer rhaglen prentisiaeth cyn cofrestru, dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r dull a ddefnyddir gan y darparwr addysg a'r cyflogwr i lunio penderfyniad gyda'i gilydd am barhad y dysgwr a'r ymdrechion i gadw'r berthynas barhaus rhwng y dysgwr a'i gyflogwr mewn amgylchiadau o'r fath.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r gefnogaeth a roddwyd gan y cyflogwr a'r darparwr addysg i ddysgwyr sy'n methu cyrraedd y deilliannau dysgu gofynnol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn cydnabod pwysigrwydd proses i ddiffinio unrhyw amrywiad yn natblygiad y |

| Maes 5: Dysgu wrth ymarfer | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | dysgwr trwy'r rhaglen cyn cofrestru. Bydd y meini prawf ar gyfer penderfynu pryd y bydd cynllun astudio unigol yn cael ei ystyried a'i weithredu hefyd yn cael eu cofnodi. Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r camau y mae'r darparwr addysg yn eu cymryd i sefydlu cynllun astudio unigol, gan sicrhau ei fod yn ei le ar y cyfle cyntaf posibl. Ar gyfer rhaglen prentisiaeth cyn cofrestru, ystyriaeth o rôl y cyflogwr wrth weithredu cynllun astudio unigol hefyd yn cael ei ddisgrifio. |
| Safon 5.5 | | Rhaid cael nifer ddigonol o staff gyda'r cymwysterau a'r profiad priodol yn ymwneud â dysgu wrth ymarfer. | |
| Meini prawf | 5.5.1 | Therapydd galwedigaethol a gyflogir gan y darparwr addysg â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso dysgu wrth ymarfer yn y rhaglen cyn cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio rôl yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso dysgu wrth ymarfer a'r gofyn i'r unigolyn fod yn therapydd galwedigaethol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn amlinellu arbenigedd, cymwysterau a statws cofrestru HCPC presennol yr unigolyn sy'n gyfrifol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae nifer addas o therapyddion galwedigaethol yn trefnu dysgu wrth ymarfer ac mewn rolau addysgwyr ymarfer. |
| | 5.5.2 | Y nifer o staff cymwys a phrofiadol sy'n ymwneud â dysgu wrth ymarfer yn gymesur â'r nifer o ddysgwyr. | |
| Safon 5.6 | | Rhaid i addysgwyr ymarfer fod â'r wybodaeth, sgiliau a'r profiad perthnasol i gefnogi dysgu diogel ac effeithiol. | |
| | 5.6.1 | Addysgwyr ymarfer wedi eu paratoi a'u cefnogi yn ddigonol i hwyluso dysgu wrth ymarfer. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r darparwr addysg yn cefnogi darparwyr addysg wrth ymarfer i |

| Maes 5: Dysgu wrth ymarfer | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | 5.6.2 | Darparwyr addysg yn hwyluso a lliflinio'r broses i addysgwyr ymarfer ddysgu ac asesu dysgwyr yn ystod dysgu wrth ymarfer. | ddynodi, recriwtio, paratoi, cefnogi a chadw addysgwyr ymarfer.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn disgrifio sut y mae addysgwyr ymarfer yn cael eu hwyluso i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gefnogi dysgwyr. |
| Safon 5.7 | | Rhaid i addysgwyr ymarfer gael addysg cyson sy'n addas i'w rôl, anghenion dysgwyr a chyflawni deilliannau dysgu'r rhaglen cyn cofrestru. | |
| Meini prawf | 5.7.1 | Y darparwr addysg yn gweithio mewn partneriaeth â'r darparwyr dysgu wrth ymarfer i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes yr addysgwyr ymarfer. | Dogfennau'r rhaglen yn amlinellu'r berthynas rhwng y darparwr addysg a'r darparwr dysgu wrth ymarfer ac yn disgrifio sut y maent yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes yr addysgwyr ymarfer.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn ymgorffori egwyddorion datblygu proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes (Broughton a Harris 2019) a'r Fframwaith Datblygu Gyrfa (RCOT 2017b)* yn y cynllunio datblygiad proffesiynol ar gyfer addysgwyr ymarfer. Dogfennau'r rhaglen yn amlinellu sut y bydd dysgwyr yn cael budd o'r datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes a wneir gan addysgwyr ymarfer. |
| | 5.7.2 | Gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes y mae addysgwyr ymarfer yn ymwneud â nhw yn cael effaith uniongyrchol ar ddyluniad a chyflwyno profiad dysgu wrth ymarfer cyfoes. | |
| Safon 5.8 | | Rhaid i ddysgwyr ac addysgwyr ymarfer gael y wybodaeth y mae arnynt ei hangen yn brydlon er mwyn bod yn barod am ddysgu wrth ymarfer. | |
| | 5.8.1 | Dylid cael cyfle i gynefino â'r holl ddysgu wrth ymarfer sy'n paratoi dysgwyr ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau'r darparwr dysgu | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r darparwr dysgu wrth ymarfer, y darparwr addysg, yr addysgwyr ymarfer a'r |

* Lansiwyd yr ailargraffiad o'r Fframwaith Datblygu Gyrfa yn 2021 (RCOT 2021a), gan ddisodli'r argraffiad cyntaf (RCOT 2017b).

| Maes 5: Dysgu wrth ymarfer | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | wrth ymarfer, y darparwr addysg, addysgwyr ymarfer a'r dysgwyr. | dysgwyr yn ystod dysgu wrth ymarfer yn glir. Dysgwyr ac addysgwyr ymarfer yn cael y wybodaeth hon ac wedi eu paratoi a'u cefnogi yn ddigonol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau perthnasol.<br><br>Gall darparwyr dysgu wrth ymarfer ofyn i'r dysgwyr fod wedi cwblhau hyfforddiant penodol, fel ymdrin â llaw, GDPR, adfywio, rheoli heintiadau neu ddiogelwch bwyd a hylendid. Mewn achosion o'r fath, dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r darparwr addysg yn cefnogi dysgwyr i gwblhau'r hyfforddiant gofynnol, o fewn rheswm, cyn cychwyn ar eu dysgu wrth ymarfer. Gall darparwyr addysg gynnig yr hyfforddiant yn uniongyrchol neu hwyluso mynediad at hyfforddiant i'w dysgwyr. Byddai polisi lleol ar gyfer sicrhau bod yr hyfforddiant hwn wedi cael ei ddilyn yn cynnwys diffinio'r cyfrifoldebau am ddarparu hyfforddiant, rheoli'r swyddogaeth weinyddol ac olrhain dysgwyr nad ydynt wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r ystod o strategaethau ac adnoddau i gefnogi dysgwyr mewn lleoliadau dysgu wrth ymarfer a sut y gall y rhain gael eu teilwrio i weddu i gyd-destun penodol y lleoliad. |
| | 5.8.2 | Dysgwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan y darparwr dysgu wrth ymarfer penodol, cyn cychwyn yn y lleoliad. | |
| | 5.8.3 | Er mwyn sicrhau dyfnder o ddysg, addysgwyr ymarfer yn rhoi amrywiaeth o strategaethau ac adnoddau i gefnogi dysgwyr i weld sut i ymarfer yn y lleoliad dysgu wrth ymarfer penodol. | |

| Maes 6: Asesu | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 6.1 | | Rhaid i'r strategaeth asesu a'i dyluniad sicrhau bod y rhai sy'n cwblhau'r rhaglen cyn cofrestru yn llwyddiannus yn cyrraedd y safonau proffesiynol i ymarfer. | |
| Meini prawf | 6.1.1 | Y strategaeth a'r dulliau asesu yn sicrhau bod graddedigion yn cyrraedd y safonau proffesiynol i ymarfer, erbyn diwedd y rhaglen cyn cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae deilliannau dysgu'r rhaglen cyn cofrestru yn cyd-fynd â'r safonau proffesiynol i ymarfer. Dogfennau'r rhaglen yn dangos sut y bydd dysgwyr yn cael eu hasesu fel rhai sy'n cyrraedd y deilliannau dysgu.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys y broses ar gyfer dynodi a rheoli dysgwyr sy'n llai tebygol o gwblhau'r rhaglen cyn cofrestru yn llwyddiannus cyn gynted ag sy'n bosibl. Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â chynnydd dysgwyr yn disgrifio'r camau y mae'r darparwr addysg yn eu cymryd i sefydlu cynllun astudio unigol, gan sicrhau ei fod yn ei le ar y cyfle cyntaf posibl.<br><br>Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, rhaid i'r trefniadau ar gyfer asesu terfynol gael eu cofnodi. Efallai y bydd angen contract ychwanegol ar gyfer yr arholydd terfynol i ddangos y trefniadau a chyfrifoldebau ar gyfer yr asesiad terfynol. |
| Safon 6.2 | | Rhaid i asesu trwy'r rhaglen cyn cofrestru sicrhau bod dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu bodloni disgwyliadau ymddygiad proffesiynol, gan gynnwys y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg. | |
| Meini prawf | 6.2.1 | Y strategaeth a'r dulliau asesu yn sicrhau bod graddedigion yn cyrraedd disgwyliadau moesegol ac ymddygiad proffesiynol y proffesiwn. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae deilliannau dysgu'r rhaglen cyn cofrestru yn cyd-fynd â disgwyliadau moesegol ac ymddygiad proffesiynol y proffesiwn. |

| Maes 6: Asesu | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys y broses ar gyfer ymchwilio i bryderon am addasrwydd i ymarfer a therfynu posibl ar ymrestriad dysgwr ar y sail honno. Mewn achosion pan fydd pryder am allu dysgwr i barhau yn y rhaglen cyn cofrestru, y broses a ddefnyddir i hysbysu'r rhanddeiliaid perthnasol, pan fydd yn berthnasol, a llunio penderfyniad am barhad y dysgwr yn cael eu hamlinellu yn nogfennau'r rhaglen.<br><br>Ar gyfer rhaglen prentisiaeth cyn cofrestru, dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r dull a ddefnyddir gan y darparwr addysg a'r cyflogwr i lunio penderfyniad gyda'i gilydd am barhad y dysgwr a'r ymdrechion i gadw'r berthynas barhaus rhwng y dysgwr a'i gyflogwr mewn amgylchiadau o'r fath. |
| Safon 6.3 | | Rhaid i asesiadau roi mesur gwrthrychol, teg a dibynadwy o gynnydd y dysgwr a'i gyrhaeddiad. | |
| Meini prawf | 6.3.1 | Y strategaeth a'r dulliau asesu yn rhoi mesur gwrthrychol, teg a dibynadwy o gyrhaeddiad wedi'i alinio gyda lefel academaidd y rhaglen cyn-cofrestru. | Dogfennau'r rhaglen yn dangos sut y mae'r strategaeth a'r dulliau asesu yn sicrhau gwrthrychedd a dibynadwyedd mesur cyrhaeddiad.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r strategaeth a dulliau asesu yn cael eu cyfleu i ddysgwyr, er mwyn bod yn dryloyw. |
| | 6.3.2 | Y strategaeth a'r dulliau asesu yn dryloyw i'r dysgwr yn cynnwys y disgwyliadau ar bob lefel academaidd ar gyfer pob rhaglen. | |
| Safon 6.4 | | Rhaid i bolisïau asesu nodi'r gofynion i symud ymlaen a llwyddo yn y rhaglen cyn cofrestru yn glir. | |
| | 6.4.1 | Rhaid i ddysgwyr sy'n methu elfen dysgu wrth ymarfer ar sail pryderon a brofir am addasrwydd i ymarfer gael eu hatal rhag ceisio adfer hynny. | Dogfennau'r rhaglen yn cynnwys y broses ar gyfer rheoli dysgwyr nad ydynt yn gallu cyrraedd y deilliannau dysgu gofynnol a/neu |

<table>
<tr><th colspan="4">Maes 6: Asesu</th></tr>
<tr><th colspan="3">Safonau a meini prawf</th><th>Cyfarwyddyd a thystiolaeth</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Meini prawf</td><td>6.4.2</td><td>Nid yw’r oriau a gwblhawyd o elfen dysgu wrth ymarfer a fethwyd yn cyfrif tuag at y gofyn cyffredinol o 1000 o oriau o ddysgu wrth ymarfer.</td><td rowspan="3">ddysgwyr nad ydynt yn addas i ymarfer.<br><br>Dogfennau’r rhaglen yn cynnwys y broses ar gyfer ymchwilio i bryderon am addasrwydd i ymarfer a therfynu posibl ar ymrestriad dysgwr ar y sail honno. Os bydd y pryderon addasrwydd i ymarfer yn ymwneud ag iechyd y dysgwr ei hun a bod ei iechyd yn gwella digon i gael ei ystyried yn addas i ymarfer, yna gall ail ymdrech gael ei chynnig.<br><br>Dogfennau’r rhaglen yn disgrifio’r gofyn mai dim ond yr oriau hynny a weithiwyd yn ystod dysgu wrth ymarfer a gwblhawyd yn llwyddiannus sy’n cyfrif tuag at y gofyn o 1000 o oriau o ddysgu wrth ymarfer.<br><br>Dogfennau’r rhaglen yn nodi, os bydd dysgwr yn methu’r ail gynnig ar elfen o ddysgu wrth ymarfer, eu bod wedi methu gofynion y rhaglen cyn cofrestru a bod rhaid iddynt dynnu yn ôl. Y broses o weithredu’r gofyn hwn hefyd yn cael ei disgrifio.<br><br>Dogfennau’r rhaglen yn nodi, os bydd dysgwr yn methu’r cynnig cyntaf ar elfennau dysgu wrth ymarfer olynol, eu bod wedi methu gofynion y rhaglen cyn cofrestru a bod rhaid iddynt dynnu yn ôl. Y broses o weithredu’r gofyn hwn hefyd yn cael ei disgrifio.</td></tr>
<tr><td>6.4.3</td><td>Dysgwyr yn cael eu tynnu o raglen cyn cofrestru os byddant yn methu ar eu hail ymdrech ar unrhyw elfen dysgu wrth ymarfer.</td></tr>
<tr><td>6.4.4</td><td>Dysgwyr yn cael eu hatal rhag parhau ar y rhaglen cyn cofrestru os byddant yn methu eu cynnig cyntaf ar ddwy elfen dysgu wrth ymarfer olynol.</td></tr>
</table>

| Maes 6: Asesu | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Safon 6.5 | | Rhaid i'r dulliau asesu a ddefnyddir fod yn addas ac yn effeithiol wrth fesur y deilliannau dysgu. | |
| Meini prawf | 6.5.1 | Y dulliau asesu yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau a thechnolegau i ymdrin ag anghenion andragogig y dysgwyr. | Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio'r dulliau asesu a ddefnyddiwyd a sut y maent yn ymdrin ag anghenion andragogig y dysgwyr. Asesu yn cynnwys arsylwi uniongyrchol yn ystod dysgu wrth ymarfer.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn disgrifio sut y mae'r dulliau asesu yn cyd-fynd â'r nodau addysgol a'r deilliannau dysgu.<br><br>Ar gyfer rhaglenni doethor therapi galwedigaethol, mae'n rhaid hefyd ystyried allu dysgwyr i benderfynu ellfennau o'u dysgu |
| | 6.5.2 | Y dulliau asesu yn cefnogi datblygu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad proffesiynol ac yn cyd-fynd â nodau addysgol a deilliannau dysgu'r rhaglen cyn cofrestru. | |
| Safon 6.6 | | Rhaid cael proses effeithiol yn ei lle i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyflwyno apeliadau academaidd. | |
| Meini prawf | 6.6.1 | Dysgwyr yn cael digon o wybodaeth am y broses i'w dilyn wrth gyflwyno apêl academaidd. | Dogfennau'r rhaglen yn amlinellu'r broses apeliadau academaidd ac yn disgrifio sut y mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyfleu i ddysgwyr.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn diffinio amserlen addas ar gyfer ymatebion i apeliadau academaidd gan y darparwr addysg. |
| | 6.6.2 | Ymateb prydlon a phriodol yn cael ei roi i ddysgwyr yn dilyn apêl academaidd. | |
| Safon 6.7 | | Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod gan un arholwr allanol o leiaf ar gyfer y rhaglen cyn cofrestru y cymwysterau a'r profiad priodol. | |
| Meini prawf | 6.7.1 | Rhaid i arholwr allanol oruchwylio a chael mynediad at bob elfen o'r dyfarniad. | Rhaid i arholwyr allanol fod yn therapyddion galwedigaethol ac â dealltwriaeth drylwyr a phrofiad o egwyddorion asesu a'r dulliau mewn addysg uwch.<br><br>Dogfennau'r rhaglen yn ymwneud â staffio yn amlinellu'r disgwyliadau o ran arbenigedd, cymwysterau a |

| Maes 6: Asesu | | | |
|---|---|---|---|
| Safonau a meini prawf | | | Cyfarwyddyd a thystiolaeth |
| Meini prawf | | | statws cofrestru HCPC presennol yr arholwyr allanol. Cyfrifoldeb y darparwr addysg yw penodi mae'n rhaid i drefniadau a chyfrifoldebau yn gysylltiedig gyda'r asesiad terfynol gael eu cynnwys o fewn contract yr arholydd allanol. |

# Cyfeiriadau


Baltruks D, Callaghan P (2018) *Nursing, midwifery and allied health clinical academic research careers in the UK*. Llundain: Council of Deans of Health. Ar gael yn: https://councilofdeans.org.uk/2018/08/new-report-identifies-opportunities-for-promoting-clinical-academic-research-careers/ Agorwyd ar 08.03.19.

Broughton W, Harris G gol (2019) *Principles for continuing professional development and lifelong learning in health and social care*. The Interprofessional CPD and Lifelong Learning UK Working Group. Bridgwater: Coleg y Parafeddygon. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/practice-resources/rcot-publications/downloads/rcot-standards-and-ethics Agorwyd ar 27.02.19.

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2021a) *Fframwaith datblygu gyrfa: canllawiau ar gyfer therapyddion galwedigaethol*. 2il rifyn. Llundain: RCOT.

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2021b) *Safonau proffesionol ar gyfer ymarfer, ymddygiad a moeseg therapi galwedigaethol*. Llundain: RCOT.

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2018) *Embracing risk; enabling choice: guidance for occupational therapists*. Llundain: RCOT. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/practice-resources/rcot-publications/downloads/embracing-risk Agorwyd ar 27.02.19.

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2017a) *Project ethics policy*. Llundain: RCOT. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/sites/default/files/PE1%20-%20RCOT%20Project%20Ethics%20Policy%202017.pdf Agorwyd ar 21.06.19.

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2017b) *Fframwaith datblygu gyrfa: egwyddorion arweiniol i therapi galwedigaethol*. Llundain: RCOT. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/cpd-rcot Agorwyd ar 27.02.19.

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (2017) *Safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer therapi galwedigaethol*. Llundain: COT. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/practice-resources/rcot-publications/downloads/rcot-standards-and-ethics Agorwyd ar 27.02.19.

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (2015a) *Cod moeseg ac ymddygiad proffesiynol*. Llundain: COT. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/practice-resources/rcot-publications/downloads/rcot-standards-and-ethics Agorwyd ar 27.02.19.

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (2015b) *Supervision: guidance for occupational therapists and their managers*. Llundain: COT. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/sites/default/files/Supervision.pdf Agorwyd ar 27.02.19.

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (2014a) *Learning and development standards for pre-registration education*. Llundain: COT.

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (2014b) *Learning and development standards for pre-registration education: accreditation process*. Llundain: COT.

Council of Deans of Health (2017) *Guidance: public health content within the pre-registration curricula for allied health professions*. Llundain: Council of Deans of Health. Ar gael yn: https://councilofdeans.org.uk/wp-content/uploads/2017/09/Public-Health-Content-within-the-Pre-Registration-Curricula-for-Allied-Health-Professions.pdf Agorwyd ar 10.04.19.

Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2019) *Benefits of becoming a reflective practitioner: a joint statement of support from chief executives of statutory regulators of health and care professionals.* [s.l.]: HCPC.

Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2018) *Standards of continuing professional development.* Llundain: HCPC. Ar gael yn: https://www.hcpc-uk.org/standards/standards-of-continuing-professional-development/ Agorwyd ar 21.06.19

Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2017) *Standards of education and training.* Llundain: HCPC. Ar gael yn: https://www.hcpc-uk.org/resources/standards/standards-of-education-and-training/ Agorwyd ar 10.04.19.

Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2016) *Standards of conduct, performance and ethics.* Llundain: HCPC. Ar gael yn: https://www.hcpc-uk.org/resources/standards/standards-of-conduct-performance-and-ethics/ Agorwyd ar 21.06.19.

Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2013) *Standards of proficiency.* Llundain: HCPC. Ar gael yn: https://www.hcpc-uk.org/standards/standards-of-proficiency/ Agorwyd ar 10.04.19.

Dancza K, Coplley J, Moran M (2019) Occupational therapy student learning on role-emerging placements in schools. *British Journal of Occupational Therapy, Apr 24.* [E-gyhoeddiad cyn argraffu.]

Ffederasiwn y Byd o Therapyddion Galwedigaethol (2018) *Sustainability matters: guiding principles for sustainability in occupational therapy practice, education and scholarship.* [s.l.]: WFOT. Ar gael yn: https://www.wfot.org/resources/wfot-sustainability-guiding-principles Agorwyd ar 27.02.19.

Ffederasiwn y Byd o Therapyddion Galwedigaethol (2016) *Minimum standards for the education of occupational therapists* [s.l.]: WFOT. Ar gael yn: https://www.wfot.org/resources/new-minimum-standards-for-the-education-of-occupational-therapists-2016-e-copy Agorwyd ar 21.06.19

Gewurtz RC, Coman L, Dhillon S, Jung B, Solomon P (2016) Problem-based learning and theories of teaching and learning in health professional education. *Journal of Perspectives in Applied Academic Practice, 4(1)*, 59–70.

Gwasanaeth Iechyd Gwladol (2019) *The Topol review: preparing the healthcare workforce to deliver the digital future: an independent report on behalf of the Secretary of State for Health And Social* Care [Llundain]: Health Education England. Ar gael yn: https://topol.hee.nhs.uk/wp-content/uploads/HEE-Topol-Review-2019.pdf Agorwyd ar 27.02.19.

Hitch D, Pépin G, Stagnitti K (2014) In the footsteps of Wilcock, part one: the evolution of doing, being, becoming and belonging. *Occupational Therapy in Health Care, 28(3)* 231–246.

Imms C, Froude E, Chu EMY, Sheppard L, Darzins S, Guinea S . . . Mathieu E (2018) Simulated versus traditional occupational therapy placements: a randomised controlled trial. *Australian Occupational Therapy Journal*, 65*(6)*, 556–564.

International Association for Public Participation (2018) *IAP2 spectrum of public participation.*[s.l.]: IAP2. Ar gael yn: https://www.iap2.org/page/pillars Agorwyd ar 10.04.19.

Kolyva K, Butt N, Eames J (2018) *#150Leaders: fostering student leadership*. Llundain: Council of Deans of Health. Ar gael yn: https://councilofdeans.org.uk/wp-content/uploads/2018/12/COD.Student.leadership.programme_2-002-1.pdf Agorwyd ar 10.04.19.

McCormack B, Baltrucks D, Cooke R (2019) *Becoming research confident: research in pre-registration curricula for nursing, midwifery and allied health programmes in the UK*. Llundain: Council of Deans of Health. Ar gael yn: https://councilofdeans.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/CODH.RIPR_.report_v3-002.pdf Agorwyd ar 19.06.19.

Prydain Fawr. Senedd (2010) *Deddf Cydraddoldeb 2010* [Llundain] Y Llyfrfa. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/pdfs/ukpga_20100015_en.pdf Agorwyd ar 10.04.19.

Reed HE (2014) *An examination of critical thinking skills in traditional and simulated environments for occupational therapy students*. Doctor of Education Leadership (EdLD). San Diego CA: Prifysgol Talaith San Diego Ar gael yn: *https://sdsu-dspace.calstate.edu/bitstream/handle/10211.3/137693/Reed_sdsu_0220D_10629.pdf?sequence=1* Agorwyd ar 13.03.19

Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol (2021a) *Apprenticeship standards: occupational therapist (integrated degree)*. Llundain: Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol. Ar gael yn: *https://www.instituteforapprenticeships.org/apprenticeship-standards/occupational-therapist-integrated-degree* Agorwyd ar 01.11.21.

Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol (2021b) *End-point assessment plan for occupational therapist fully integrated degree apprenticeship standard*. Llundain: Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol. Ar gael yn: https://www.instituteforapprenticeships.org/media/5594/st0517_occupational-therapist-l6-_fully-integrated_ap-for-publication_adjustment21092021.pdf Agorwyd ar 01.11.21.

Toserud R, Hedelin B, Hall-Lord ML (2013) Nursing students' perception of high- and low-fidelity simulation used as learning methods. *Nurse Education in Practice*, *13(4)*, 262–270.

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2018) *Realising professionalism: standards for education and training: part3: standards for pre-registration nursing programmes*. [Llundain]: Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Ar gael yn https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/education-standards/programme-standards-nursing.pdf Agorwyd ar 10.04.19.

# Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru

Argraffi ad diwygiedig 2019

Mae'r *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* yn disgrifi o disgwyliadau'r proffesiwn y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg eu bodloni wrth ddarparu rhaglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru yn y Deyrnas Unedig. Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol yn rheoli Proses Achredu, gan ddefnyddio'r Safonau hyn i asesu a yw rhaglen cyn cofrestru, a'r darparwr addysg sy'n darparu'r rhaglen honno yn darparu'r wybodaeth, sgiliau a'r nodweddion proffesiynol sy'n angenrheidiol i fodloni anghenion galwedigaethol y gymuned yn fedrus a moesegol. Ceir rhagor o wybodaeth am y Broses Achredu yn www.rcot.co.uk/accreditation-process

Gall y cyhoeddiad hwn gael ei ddefnyddio yn ymarferol ac fel off eryn cyfeirio i ddarparwyr addysg, addysgwyr ymarfer, dysgwyr, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol ac unrhyw randdeiliaid eraill sydd â diddordeb yn y safonau a osodir gan y corff proffesiynol.

**rcot.co.uk**

**© 2019 Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (Rhif 275119) ac yn yr Alban (Rhif SCO39573) a chwmni cofrestredig yn Lloegr (Rhif 1347374)**